Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
# **Adroddiad blynyddol a chyfrifon**

## Ar gyfer yr 16 mis a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon

*Cynnwys*


Tudalen

## Adroddiad ar berfformiad

Trosolwg
- Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad 3
- Ynglŷn â CCAUC 4
- Datblygiadau allweddol yn ystod y cyfnod 4
- Perfformiad ar gyfer y cyfnod – trosolwg 9
  - Strategaeth gorfforaethol 9
  - Deilliannau Cynllun Busnes 2023-24 10
  - Trosolwg ariannol 10
- Datblygiadau a ddisgwylir yn y dyfodol 11
- Busnes gweithredol 11

Dadansoddiad o berfformiad
- Amcanion y strategaeth gorfforaethol a pherfformiad 11
- Dadansoddiad ariannol 12
- Cynaliadwyedd 13

## Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol
- Adroddiad y Cyfarwyddwyr 14
- Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 16
- Datganiad llywodraethu 18

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff
- Polisi cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr a'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol 27
- Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflogau) a hawliau pensiwn 28
- Datgeliadau cyflog teg 33
- Adroddiad staff 34

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd 42

## Datganiadau ariannol 46


Yn y ddogfen hon dangosir blwyddyn ariannol fel 2023-24 (Ebrill – Mawrth) a dangosir blwyddyn academaidd fel Blwyddyn Academaidd 2022/23 neu Flwyddyn Academaidd 2023/24 (Awst - Gorffennaf)

# Adroddiad ar berfformiad

## Trosolwg

### Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad

Hwn yw ein hadroddiad terfynol fel Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) cyn i ni gau ar 31 Gorffennaf 2024. Mae ein cyfrifoldebau a'n staff yn trosglwyddo i Medr, enw brand newydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024.

Yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon blaenorol ar gyfer 2022-23, roeddem yn gweithio tuag at 1 Ebrill 2024 fel y dyddiad y byddai'r Comisiwn newydd yn dod yn weithredol. Ym mis Ionawr 2024, fe gyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod y dyddiad arfaethedig i'r Comisiwn ddod yn llwyr weithredol wedi cael ei newid o 1 Ebrill i 1 Awst 2024. Roedd hyn yn rhoi rhagor o amser i Lywodraeth Cymru gyflawni'r prosiect deddfwriaeth yr oedd ei angen i alluogi Medr i gyflawni ei swyddogaethau. O ganlyniad, cafodd diddymiad CCAUC ei ohirio o 31 Mawrth tan 31 Gorffennaf 2024.

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru, fe gytunwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon terfynol yn rhychwantu cyfnod o 16 mis, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2024. Bydd yr Adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw gan Medr, ar ôl cael ei ystyried gan Gyngor CCAUC yn ei gyfarfod terfynol ym mis Gorffennaf 2024.

Rydym wedi parhau i gyflawni busnes arferol CCAUC tra buom hefyd yn dirwyn systemau a phrosesau CCAUC i ben. Yn ychwanegol at hynny, mae'r holl staff wedi ymgysylltu â'r gwaith i ddatblygu'r Comisiwn newydd, o fynychu sesiynau gwybodaeth ar gyfer staff i gydweithio'n agos o fewn tîm sefydlu Medr a datblygu systemau a phrosesau ar gyfer y sefydliad newydd.

Rydym wedi bod yn parhau i ddatblygu polisïau a gwneud gwaith ymchwil y bydd Medr yn gallu ei ddefnyddio yn ei waith ei hun yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys astudiaeth a oedd yn bwrw golwg ar ddarparu addysg uwch yng Nghymru a chostau darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Er bod ein Cronfa Cymorth i Raddedigion, a oedd yn rhoi cymorth gyda chyflogadwyedd, wedi dod i ben, fe wnaethom gyllido partneriaid o blith prifysgolion i lansio hyb cyflogadwyedd newydd i fyfyrwyr. Fe gyhoeddom ni adroddiad ar brofiad myfyrwyr ôl-radd, ac fe wnaethom beilota Fforwm Llais Myfyrwyr i oleuo sut y gallai Medr sicrhau bod lleisiau'r holl ddysgwyr ar draws y sector ôl-16 yn gallu cael eu clywed yn briodol yn ei brosesau penderfynu. Fe ymestynnodd ein rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach i gynnwys cynllun mentora rhwng dysgwyr yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a myfyrwyr.

Fe ddarparom ni ganllawiau ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac fe gyhoeddom ni ganllawiau cydraddoldeb hil a chyllid i gefnogi'r agenda hon. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU i baratoi ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf yn 2029. Fe wnaethom hefyd fapio gweithgarwch cenhadaeth ddinesig ar draws y sector addysg uwch er mwyn goleuo sut y gallai Medr ganlyn arni â'i ddyletswydd strategol yn y maes hwn.

Fe wnaethom barhau i gynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio â'u disgwyliadau rheoleiddiol a darparu ar gyfer myfyrwyr, a pharhau â'n hymgysylltiad parhaus â sefydliadau trwy adolygiadau risg a sicrwydd.

Hwn oedd ein cyfle olaf i ddiolch i staff CCAUC, nid dim ond am eu hymgysylltiad parhaus â newidiadau sylweddol yn y gweithle, tra'r oedd y pwysau o ran llwyth gwaith yn parhau; ond

hefyd am eu holl broffesiynoldeb a safonau uchel wrth gyflawni ein blaenoriaethau fel CCAUC. Fe wnaethom barhau i'w cefnogi wrth iddynt symud i mewn i Medr.

## Ynglŷn â CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr dynodedig eraill.

Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi ym maes addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, sydd hefyd yn dwyn budd cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Llywodraethir CCAUC gan Gyngor anweithredol sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at ddeg Aelod arall o'r Cyngor. Hefyd, mae Prif Weithredwr CCAUC yntau/hithau'n aelod o'r Cyngor. Bwrdd Rheoli CCAUC sy'n gyfrifol am reolaeth a gweithrediadau CCAUC. Ar ddiwedd y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, mae gan CCAUC 54 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, wedi'u rhannu'n bedair cyfarwyddiaeth, gydag aelod o'r Bwrdd Rheoli'n bennaeth ar bob un.

### Datblygiadau allweddol yn ystod y cyfnod

*Y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r trefniadau ar gyfer pontio i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil*
Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ym mis Medi 2022, cafodd y Comisiwn ei sefydlu'n ffurfiol ar 4 Medi 2023 pan benodwyd ei Brif Weithredwr a gweddill aelodau'r bwrdd. Datgelodd y Comisiwn ei enw brand newydd, sef Medr, ym mis Mai 2024. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi Llywodraeth Cymru a Medr, i alluogi Medr i fod yn weithredol o 1 Awst 2024. Mae hyn wedi golygu bod staff CCAUC wedi rhoi cymorth i ddylunio a phrofi systemau TG newydd, yn ogystal â bod yn aelodau o dîm sefydlu Medr. Cefnogwyd hyn gan brotocol rhwng Medr, CCAUC a Llywodraeth Cymru, i ddarparu eglurder ynghylch cyfrifoldebau a ffyrdd o weithio yn ystod y cyfnod pontio pan fo tri sefydliad yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd.

Yn ystod y cyfnod o 16 mis a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, fe wnaethom barhau i gyflawni prosiect CCAUC i'w gwneud hi'n bosibl trosglwyddo staff ac asedau i Medr yn ogystal â chau CCAUC.

Mae craffu manwl, rheolaidd ar ein prosiect pontio wedi bod yn cael ei drafod gyda'n Cyngor a'i bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), ac mae cyfrifoldeb am gynghori ynghylch pontio o CCAUC i mewn i Medr wedi cael ei gynnwys yng Nghylch Gorchwyl pob pwyllgor. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu adroddiadau trosglwyddo gan CCAUC ar gyfer Medr, a'r rheiny'n rhoi cyngor a manylion ymrwymiadau a wnaed gan CCAUC a fydd yn cael eu hetifeddu gan Medr.

*Cyllid*
Ym mis Gorffennaf 2023, fe gyhoeddom ni ein prif ddyraniadau cyllid addysgu, ymchwil ac arloesi ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24. Roedd hyn yn cynnwys £2.3m ar gyfer llesiant ac iechyd a chaledi myfyrwyr, yn ychwanegol at ein £2m cylchol ar gyfer strategaethau llesiant ac iechyd.

Ym mis Awst 2023, fe gyhoeddom ni werth £10m o ddyraniadau cyllid cyfalaf ar gyfer 2023-24 ac £8.5m o gyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch ar ran Llywodraeth Cymru ac Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg y DU.

Ym mis Rhagfyr 2023, fe gyhoeddom ni gyllid ychwanegol o'r Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol i gefnogi gweithgareddau Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) mewn addysg uwch yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2024, fe gawsom gyllid ychwanegol o £3.4m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Arloesi Rhanbarthol.

Ym mis Gorffennaf 2024, fe gyhoeddom ni ddyraniadau cyllid addysgu, ymchwil ac arloesi ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.

*Adolygiad o gyllid addysgu*
Fe gwblhaom ni ein hadolygiad o gyllid addysgu, a ddechreuodd yn 2021/22, ac fe gyhoeddom ni ganlyniadau'r adolygiad ym mis Ebrill 2023 trwy gylchlythyr W23/10HE. Bydd y canlyniadau'n goleuo ystyriaethau Medr i ddull o ymdrin â chyllid addysgu sy'n ystyried y sector ôl-16 ehangach. Fe roddom ni gomisiwn i Anna Verhamme Consulting i gynnal adolygiad o fodelau darparu addysg uwch i ategu'r cyngor hwn ymhellach, ac fe gyhoeddwyd adroddiad ar y canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2024.

Fe wnaethom hefyd roi comisiwn i LE Wales i gynnal adolygiad o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, y gwnaeth ei ddeilliannau oleuo'r arolygiad o gyllid addysgu a'r broses benderfynu ddilynol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2023 trwy gylchlythyr W23/08HE.

*Cyllid a pholisi ymchwil ac arloesi*
Rydym wedi parhau i weithio gyda chyrff cyllido eraill y DU i ddatblygu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) nesaf. Ym mis Mehefin 2023 fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniadau cychwynnol ynglŷn â dyluniad yr ymarfer nesaf a gwahodd adborth ymgynghori. Ym mis Rhagfyr 2023, gan ystyried yr ymatebion a gafwyd, fe gyhoeddodd y pedwar corff cyllido y byddai'r REF nesaf yn digwydd yn 2029, ac ym mis Ionawr 2024 fe wnaethom gadarnhau y byddem yn cynnal peilot o'r elfen Pobl, Diwylliant ac Amgylchedd. Rydym wedi ymgynghori ynghylch cyflwyno cyllid wedi'i dargedu i roi cymorth i ddatblygu amgylcheddau a diwylliant ymchwil cadarnhaol, gan gynnwys creu rhwydweithiau ar gyfer rhannu arfer a gwersi.

Ym mis Mai 2023 fe gyhoeddom ni ganllawiau ar gyfnod strategaeth nesaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru rhwng 2023/24 a 2027/28. Mae sefydliadau addysg uwch wedi cyflwyno strategaethau i roi arweiniad o ran eu defnydd o'r gronfa hon am y pum mlynedd nesaf.

Ym mis Mehefin 2023, fe lofnodom ni Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae hwn yn tanategu ein cyllid grant blynyddol i'r Gymdeithas ar gyfer rhaglen o weithgareddau i roi cymorth i ddatblygu'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2023, fe gyhoeddodd y Gymdeithas ddadansoddiad o'r astudiaethau achos effeithiau a gyflwynwyd i REF2021 gan sefydliadau yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn dangos effaith economaidd, gymdeithasol a diwylliannol eang ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Fe roddom ni dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn y Senedd i ymchwil a datblygu yng Nghymru. Rydym wedi parhau i weithio gyda Phrif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a Llywodraeth y DU i weithredu'r argymhellion o adolygiadau ledled y DU o'r ecosystem ymchwil ac arloesi. Rydym yn parhau i fonitro'r cynnydd yn erbyn Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru trwy adroddiad blynyddol.

*Rheoleiddio a goruchwyliaeth: Adroddiad rheoleiddiol blynyddol*
Mae'n ofynnol dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ein bod yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut, yn ystod y cyfnod adrodd, yr ydym wedi arfer ein swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf. Roedd ein hadroddiad diweddaraf i Lywodraeth Cymru, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, yn cadarnhau, yn ystod y flwyddyn adrodd, nad oedd unrhyw sefydliad a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â Chynllun Ffioedd a Mynediad gyda nifer o ddarparwyr yn destun monitro uwch mewn perthynas â chadw myfyrwyr. Roedd yr adroddiad hefyd yn cadarnhau na fu unrhyw fethiannau i gydymffurfio â'r system reoleiddiol fel y mae'n ymwneud ag ansawdd, ond bod monitro uwch mewn perthynas ag un darparwr, o safbwynt ansawdd, yn mynd rhagddo. Asesiad CCAUC ar y cyfan yw, ar draws y sector a reoleiddir, bod sefydliadau'n parhau i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol a osodwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

*Rheoleiddio a goruchwyliaeth: Y Ddyletswydd Prevent*
Mewn perthynas â rôl CCAUC o ran ymlyniad wrth y Ddyletswydd Prevent gan Gyrff Addysg Uwch Perthnasol yng Nghymru, fe gyhoeddom ni fframwaith monitro diwygiedig ym mis Awst 2019. Mae angen i ddarparwyr ddilyn y fframwaith hwn i ddangos eu bod yn rhoi 'sylw dyladwy' i'r ddyletswydd. Mae'r fframwaith hwn yn nodi sut y byddwn yn casglu gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth. Yn flynyddol, mae'n ofynnol i ddarparwyr AU gwblhau Ffurflen Sicrwydd Flynyddol. O fewn y Ffurflen Sicrwydd hon, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu neu'r perchennog gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Prevent ac â gofynion monitro CCAUC. Rydym yn adrodd yn flynyddol wrth y Swyddfa Gartref, ac yn rhannu'r adroddiad gyda Llywodraeth Cymru, ar gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Prevent gan ddarparwyr AU sydd o dan ein hawdurdod monitro ni, ac yn nodi ein cynlluniau ar gyfer monitro parhaus. Cyflwynwyd ein hadroddiad diweddaraf i'r Swyddfa Gartref ym mis Mawrth 2024 ac roedd yn ymdrin â'n gweithgarwch asesu a monitro rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

*Sicrwydd Sefydliadol*
Tuag at ddiwedd 2019, rhoddodd CCAUC gyllid i Prifysgolion Cymru i gomisiynu adroddiad ar drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i'r Siarter ac maent yn y broses o roi'r 'Cynllun Gweithredu' sy'n cyd-fynd â'r Siarter ar waith. Mae CCAUC yn monitro'r modd y cyflawnir y camau gweithredu hyn. Hefyd, fe wnaethom gyllido dau ddarn o waith yn dilyn yr Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu yng Nghymru. Yn gyntaf, Canllaw Arfer Da i sicrhau ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol a bod eu barn yn cael ei hystyried wrth ddatblygu strategaeth prifysgol ac yn ail, darn o waith ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, i weithio tuag at amrywiaeth ar fyrddau sy'n sicrhau bod cyrff llywodraethu'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

*Sicrhau Ansawdd*
Fe roddom ni gomisiwn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) i ddatblygu dull Adolygiad Gwella Ansawdd wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cymru. Cyhoeddwyd y dull hwn a daeth yn weithredol yn 2023/24. Dechreuodd â blwyddyn segur i alluogi sefydliadau i baratoi'n effeithiol ar gyfer yr adolygiadau hyn, ac i ganiatáu digon o amser i recriwtio panel o adolygwyr a fydd yn gweithio ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fe wnaethom barhau i weithio gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon i ddatblygu dulliau cyffredin ar draws y tair gwlad, ac i rannu gwersi a ddysgwyd. Fe wnaethom hefyd barhau i gyfrannu at drafodaethau ar lefel y DU ynglŷn â threfniadau goruchwylio ansawdd, gan gynrychioli CCAUC ar Bwyllgor

Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd. Fe weithiom ni gyda'r cyllidwyr a rheoleiddwyr eraill yn y DU ar ddiwygio Datganiad ynglŷn ag ansawdd, gan amcanu at nodi dulliau cyffredin ar draws pob un o wledydd y DU, sydd wedi cael ei gyhoeddi. Fe wnaethom hefyd gyllido ystod o weithgareddau gan y sector trwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, gan gynnwys cymorth i Rwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru a seminar gysylltiedig, a oedd yn llwyddiannus iawn, a phrosiectau gwella cydweithredol. Nod hyn yw sicrhau ffocws sector-cyfan parhaus ar ansawdd ac ar rannu arfer. Fe wnaethom gyllido'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch i ganolbwyntio ar rannu arfer da rhwng AU ac AB mewn perthynas ag ansawdd, gan fod yn ymwybodol o'r broses o roi Medr ar waith, a'r angen i wahanol rannau o ddarpariaeth ôl-16 gydweithio'n agosach. Yn olaf, fe wnaethom barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol, gan gymryd cyngor gan ein Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC). Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi deilliannau ymchwiliad i bryderon, a gweithgarwch dilynol.

Fe roddodd CCAUC gomisiwn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) i gynnal Ymchwiliad i Bryderon mewn un darparwr i ymchwilio i faterion a oedd yn ymwneud â systemau sicrhau ansawdd, diwallu anghenion myfyrwyr, partneriaethau a llywodraethu ansawdd. Cawsom yr adroddiad terfynol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ym mis Mawrth 2023 ac fe'i gwnaethom yn ofynnol i'r Brifysgol ddatblygu cynllun gweithredu, a rydym wedi parhau i fonitro'r modd y caiff ei roi ar waith fel rhan o ofynion ein fframwaith sicrhau ansawdd.

*Profiad Myfyrwyr*
Fe wnaethom sicrhau bod llais myfyrwyr yn dal i gael ei glywed trwy arwain ymgysylltiad Cymru â'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, ac fe aethom ar ôl materion o ran perfformiad a adnabuwyd. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu holiadur wedi'i ddiweddaru, gan olygu bod fersiynau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer Lloegr a'r gwledydd eraill, a hynny am y tro cyntaf. Fe gyhoeddom ni adroddiad yr oeddem wedi'i gomisiynu ar brofiad myfyrwyr ymchwil ôl-radd, gan amcanu at gychwyn sgyrsiau am hyn yng Nghymru a ledled y DU, er mwyn gwella cysondeb ym mhrofiad y myfyrwyr hyn. Fe wnaethom ymgysylltu ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, yr ydym yn gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda hwy, a chydag Undebau Myfyrwyr, i sicrhau ein bod yn cael ein hysbysu ynghylch y materion sy'n effeithio ar fyfyrwyr. Mae hyn yn arbennig wedi cynnwys effeithiau streiciau a'r boicot ar farcio ac asesu ar fyfyrwyr mewn rhai sefydliadau, a'r argyfwng costau byw, sydd wedi effeithio ar fyfyrwyr ym mhob sefydliad. Fe wnaethom fonitro data ar dderbyniadau a dilyniant a chynnal cyswllt â sefydliadau lle'r oedd angen i ni ddeall mwy. Fe wnaethom beilota Fforwm Llais Myfyrwyr i oleuo sut y mae Medr yn gallu sicrhau bod lleisiau'r holl ddysgwyr ar draws y sector ôl-16 yn gallu cael eu clywed yn briodol ym mhrosesau penderfynu Medr.

*Ehangu mynediad*
Fe ddechreuodd y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach a oedd yn cael ei chyllido gan CCAUC gyfnod strategaeth tair blynedd newydd o flwyddyn academaidd 2022/23. Fe barhaodd y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i ganolbwyntio ar gefnogi unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan gynnwys y rhai y gwnaeth pandemig Covid-19 darfu ar eu dysgu.

Mae CCAUC wedi parhau i gyllido'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach i gyflawni rhaglen newydd o gymorth mentora rhwng myfyrwyr prifysgol a dysgwyr mewn ysgolion a cholegau yn ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru, mewn partneriaeth gyda Brightside. Mae hyn wedi arwain at greu platfform ar-lein cwbl ddwyieithog ac, o fis Mawrth 2023, recriwtio a hyfforddi dros 130 o fentoriaid a mynediad at y platfform gan dros 200 o bobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu cyflawni cam peilot y fenter yn y Senedd ym mis Hydref 2023.

*Gradd-brentisiaethau*
Rydym wedi parhau i gyllido gradd-brentisiaethau ar y fframweithiau digidol a pheirianneg a gweithgynhyrchu uwch a ddarperir gan brifysgolion a cholegau mewn partneriaeth ledled

Cymru. Rydym wedi rhoi cymorth i Lywodraeth Cymru a'r CITB i ddatblygu fframwaith gradd-brentisiaethau newydd mewn adeiladu, gyda'r ymrestriadau cyntaf yn yr arfaeth ar gyfer mis Medi 2024.

*Cyflogadwyedd a Sgiliau*
Rydym wedi galluogi sefydliadau i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a ddaeth i ben y llynedd, trwy gyflwyno'r Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd Wedi'i Dargedu, a gefnogwyd â £2m ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Mae'r cyllid yn galluogi darparwyr AU i gynnig amrywiaeth o gymorth i wella cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, gan amcanu at fynd i'r afael â deilliannau cyflogaeth gwahaniaethol.

Fe wnaethom orffen cyllido'r Gronfa Cymorth i Raddedigion, a oedd yn galluogi sefydliadau i ddarparu mynediad at brofiad gwaith a chymorth gyda chyflogadwyedd ar gyfer unigolion a raddiodd yn ystod y pandemig i'w helpu i bontio i'r amgylchedd swyddi cyfredol, gyda ffocws ar raddedigion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Nododd prifysgolion mewn adroddiadau fod y cyllid yn allweddol bwysig i allu rhoi cymorth estynedig gyda chyflogadwyedd i raddedigion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig.

Fe wnaethom barhau i weithio gydag AdvanceHE, gan adeiladu ar yr astudiaeth o sut y caiff cyflogadwyedd ei wreiddio yng nghwricwla prifysgolion trwy sefydlu cymuned ymarfer a chyllido cyfres o ddigwyddiadau â ffocws ar ddulliau sefydliadol o ymdrin â chyflogadwyedd. Fe wnaethom arddangos sut y mae'r holl brifysgolion ac un SAB a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru'n gwreiddio cyflogadwyedd yn eu cwricwla trwy gyhoeddiad a oedd yn cynnwys astudiaethau achos ac yn dwyn y teitl Dadbacio'r tair E – safbwynt cenedlaethol, a luniwyd gan AdvanceHE.

*Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*
Fe gyhoeddom ni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig 2022-24, a'n Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb Strategol 2022-24. Fe wnaethom ystyried sut y gallai CCAUC ganlyn arni â'n hymrwymiad i 'weithio yn ysbryd' dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Fe ddarparom ni ganllawiau ynghylch mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac rydym yn parhau i weithio gyda phrifysgolion i hyrwyddo'r camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â phob math o drais, cam-drin ac aflonyddu ni waeth beth fo hunaniaeth pobl.

*Llesiant ac iechyd*
Fe gyhoeddom ni gyllid o £2m a chanllawiau i gynorthwyo prifysgolion i weithredu eu strategaethau llesiant ac iechyd ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Fe wnaethom barhau i hybu defnydd o'r dull Stepchange: prifysgolion sy'n feddyliol iach gan UUK a Fframwaith Prifysgolion Mwy Diogel rhag Hunanladdiad UUK. Fe wnaethom barhau i gyllido Student Space mewn partneriaeth gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr, i roi cymorth ac arweiniad ychwanegol i fyfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth yn Gymraeg.

Fe wnaethom ddyrannu £2.3m o gyllid ychwanegol ar gyfer llesiant ac iechyd gyda phwyslais arbennig ar fesurau i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng costau byw, gan gynnwys rhoi cyngor a chanllawiau ariannol a mynd i'r afael â chaledi myfyrwyr.

Fe wnaethom barhau i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion a ddeilliodd o ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch. Rydym wedi cyllido astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i estyniad posibl Gwasanaeth Cyswllt Iechyd Meddwl y Prifysgolion yn Ne Ddwyrain Cymru i ddod yn fodel Cymru-gyfan.

*Hil: mynediad a llwyddiant*
Fe gyhoeddom ni ganllawiau cydraddoldeb hil a manylion dyraniad o £1m yn rhagor i gefnogi'r agenda hon ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ganlyn arni â'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys cyllido Advance HE i hwyluso rhwydwaith cydraddoldeb hil sector cyfan. Fe roddom ni dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i weithrediad Cymru Wrth-hiliol, ochr yn ochr â chynrychiolwyr o rannau eraill o'r sector ôl-16.

*Cenhadaeth ddinesig*
Fe barhaodd ein Gweithgor Cenhadaeth Ddinesig dan arweiniad y Cyngor i gynghori ynghylch materion mewn polisi cenhadaeth ddinesig ac fe gefnogodd ein gwaith ar ymarfer i fapio gweithgarwch cenhadaeth ddinesig ar draws y sector er mwyn goleuo sut y bydd Medr yn cyflawni ei ddyletswydd strategol yn y maes hwn. Rydym wedi cefnogi gwaith Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru, gan gynnwys digwyddiad ym mis Mehefin 2023 i arddangos sut y mae prifysgolion yn helpu i drechu tlodi mewn cymunedau ledled Cymru.

*Darpariaeth Gymraeg*
Fe wnaethom fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg ac annog sefydliadau i barhau i wneud cynnydd yn y maes hwn, mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Fe gyhoeddom ni ganlyniadau adolygiad yr oeddem wedi'i gomisiynu o gostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghylchlythyr W23/08HE. O ganlyniad i hyn fe wnaethom weithredu cynnydd yn y premiwm cyfrwng Cymraeg ac ehangu'r premiwm i bynciau drud a chost uwch, gan gydnabod y gwahaniaethau cynyddol mewn costau rhwng astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fe wnaethom barhau i gydweithio'n agos gyda'r Coleg, yn unol â'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Fe wnaethom hefyd ddechrau gwaith mewn partneriaeth gyda'r Coleg i ganfod manteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â deilliannau cyflogaeth a chyflogadwyedd.

## Perfformiad ar gyfer y cyfnod - trosolwg

### Strategaeth Gorfforaethol

Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i ni sefydlu strategaeth gorfforaethol sy'n nodi ein hamcanion ar gyfer y tymor canolig a hir a chynllun busnes ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Yn 2021, fe ddatblygom ni Strategaeth Gorfforaethol newydd, gan gydnabod mai hon fyddai un olaf CCAUC yng ngoleuni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg ôl-orfodol a hyfforddiant integredig a sefydlu corff newydd i oruchwylio hynny. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer addysg uwch ac yn egluro diben CCAUC o ran rheoleiddio, cyllido a dylanwadu ar ddarparwyr addysg uwch er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn egluro'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n disgrifio sut yr ydym yn cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol, fel a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys chwe amcan craidd. Mae'r amcanion hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein cynlluniau busnes blynyddol. Mae Cyngor CCAUC yn cael adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau busnes ddwywaith y flwyddyn – unwaith hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ac unwaith ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn wedi dangos ein bod wedi gwneud cynnydd da o ran ymdrin â phob un o'n ffrydiau gwaith a'n set o fesurau perfformiad cysylltiedig a nodwyd yn erbyn pob un o'r chwe amcan craidd ac, wrth wneud hynny, ein bod wedi cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y deilliannau tymor hwy yr ydym wedi eu hadnabod.

## Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Gan bod diddymiad CCAUC wedi cael ei ohirio tan ddiwedd mis Gorffennaf 2024, roedd hi'n ofynnol i ni adolygu ein hamcanion llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ysgogwyd gan newidiadau i'r diffiniad o'r nod llesiant 'Cymru Lewyrchus' yn sgîl pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Yng ngoleuni'r adolygiad hwn, fe gytunodd y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024 na fyddai'n ofynnol gwneud unrhyw newid pellach i amcanion strategaeth gorfforaethol CCAUC, sef ei amcanion llesiant hefyd, a'i ddatganiad llesiant.

Mae Llywodraeth Cymru'n cael adroddiadau ar gynnydd gyda'n Cynlluniau Busnes trwy gael papurau Cyngor CCAUC. Rydym hefyd yn darparu adroddiad blynyddol ar wahân i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn y tasgau penodol sydd wedi'u cynnwys yn ein llythyr cylch gwaith.

Mae'r Ddogfen Fframwaith, sy'n nodi telerau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC, yn ei gwneud yn ofynnol i ni bennu cyllidebau a monitro gwariant. Cyflawnir hyn trwy gyhoeddi adroddiadau misol ar y gyllideb ac ailbroffilio gwariant arian parod ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn monitro ein balansau arian parod yn fisol i sicrhau eu bod yn cael eu cadw o fewn terfynau rhagnodedig.

## Deilliannau Cynllun Busnes 2023-24

Roedd ein llythyr cylch gwaith ar gyfer 2024-25 yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiweddariad i'n Cynllun Busnes presennol, i gwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024, pan fwriedir diddymu CCAUC. Cafodd fersiwn estynedig o'n Cynllun Busnes 2023-24 ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai 2024 a'i chyflwyno, fel oedd yn ofynnol, i Lywodraeth Cymru yn yr un mis.

Cafodd yr holl weithgareddau a oedd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes 2023-24, gan gynnwys y camau gweithredu penodol o'n llythyrau cylch gwaith ar gyfer 2023-24 a 2024-25, eu cyflawni fel a fwriadwyd.

## Trosolwg ariannol

| *Perfformiad yn ystod y flwyddyn* | **16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000** | **2022-23 £'000** |
|---|---|---|
| Cyllido gwariant ar addysg uwch | (293,627) | (244,601) |
| Gwariant y Cyngor | (7,312) | (4,189) |
| Incwm o weithgareddau | 16,560 | 27,574 |
| Llog heb gynnwys dyraniadau | 4 | 2 |
| Cymorth grant – cyllid gan Lywodraeth Cymru | 286,432 | 218,346 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn Ecwiti Trethdalwyr | 2,057 | (2,868) |

Nid yw'n bosibl cymharu gwariant â'r flwyddyn flaenorol gan ein bod yn adrodd ar gyfnod o 16 mis cyn diddymu CCAUC ar 31 Gorffennaf 2024. Caiff manylion y dadansoddiad o wariant ar gyllido addysg uwch eu dangos yn nodyn 4 ar y cyfrifon.

Gellir rhannu cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymhariaeth.

| | 4 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cymorth grant | 69,000 | 217,432 | 218,346 |

Fe wnaeth cymorth grant ostwng £0.9m neu 0.4% rhwng 2022-23 a 2023-24.

Mae 'Incwm o weithgareddau' wastad wedi amrywio o un flwyddyn i'r llall, felly mae cymariaethau'n anodd. Ceir dadansoddiad manwl o incwm o weithgareddau yn nodyn 3 ar y cyfrifon.

Gweler y Datganiad o wariant net cynhwysfawr a'r Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar dudalennau 49 a 53 am ragor o fanylion.

### Datblygiadau a ddisgwylir yn y dyfodol

Bydd y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022, yn golygu sefydlu corff rheoleiddio a chyllido newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (enw brand Medr), a diddymu CCAUC. Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu ar ddiwedd mis Gorffennaf 2024 gyda Medr yn llwyr weithredol o fis Awst 2024.

Ein blaenoriaethau yn ystod y cyfnod terfynol o 16 mis a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn oedd parhau i fynd i'r afael â'n cyfrifoldebau statudol craidd i gyllido a rheoleiddio'r sector addysg uwch yng Nghymru; paratoi ar gyfer diddymu CCAUC yn effeithlon; a chyfrannu at broses esmwyth i bontio swyddogaethau CCAUC i mewn i Medr. Un o'r blaenoriaethau allweddol yn hyn i gyd fu cefnogi staff CCAUC trwy'r broses bontio.

Fe wnaethom barhau trwy gydol y cyfnod adrodd i wneud gwaith manwl i fonitro'r risgiau a'r cyfleoedd posibl sy'n wynebu addysg uwch yng Nghymru, yn enwedig o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol anodd ar hyn o bryd ar gyfer addysg uwch ledled y DU, a chynghori ar y rhain. Rydym wedi parhau i asesu datblygiadau polisi addysg uwch yn Lloegr a datblygiadau ar lefel ehangach yn y DU, o ran eu goblygiadau posibl ar gyfer addysg uwch yng Nghymru – gan gynnwys yr ansicrwydd sy'n codi o golli cronfeydd strwythurol yr UE a'r effaith ar y sylfaen ymchwil, datblygiad cynlluniau ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) nesaf a phenderfyniadau polisi ar lefel y DU gyfan ynglŷn â mewnfudo.

### Busnes gweithredol

O ganlyniad i basio Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 fe gaewyd ac fe ddiddymwyd CCAUC pan gychwynnodd adran 23 y Ddeddf ar 1 Awst 2024. Rhoddwyd gorchymyn trosglwyddo yn ei le am hanner nos ar y dyddiad hwn a drosglwyddodd y staff, yr asedau a'r rhwymedigaethau a oedd yn weddill gan CCAUC i'r Corff newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Gan bod y swyddogaethau a oedd yn cael eu darparu gan CCAUC wedi trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, mae'r Swyddog Cyfrifyddu, gyda chefnogaeth yr uwch reolwyr, wedi dod i'r casgliad bod y gwasanaethau a arferai gael eu darparu gan CCAUC yn parhau i gael eu darparu. Felly, yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol, mae'n briodol i CCAUC baratoi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 ar sail busnes gweithredol.

## Dadansoddiad o berfformiad

### Amcanion y strategaeth gorfforaethol a pherfformiad

I gyflawni diben a gweledigaeth ein Strategaeth Gorfforaethol, rydym wedi sefydlu chwe amcan craidd. O dan bob un o'r rhain, rydym wedi adnabod set o fesurau perfformiad, deilliannau a dangosyddion yn erbyn y ffrydiau gwaith cyflawni allweddol. Mae'r adroddiad ar

ein Cynllun Busnes yn rhoi disgrifiad manwl o'n perfformiad yn erbyn pob un o'r ffrydiau gwaith hyn, gan adrodd ar ddeilliannau a dangosyddion lle mae data neu ffynonellau tystiolaeth eraill yn caniatáu.

Ffocws pwysig i CCAUC yn 2023-24 a 2024-25 fu parhau â'r gwaith manwl yr oedd ei angen i gynllunio ar gyfer sefydlu Medr a diddymu CCAUC. Fe sefydlom ni brosiect pontio fel y gallem gynllunio proses bontio drefnus i drosglwyddo staff a swyddogaethau CCAUC i mewn i Medr.

Trwy ddarparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect hwn i Gyngor CCAUC ac i'w Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ein bwriad fu darparu sicrwydd priodol ein bod, wrth gyflawni ein cynlluniau ar gyfer pontio i'r sefydliad newydd, wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni gweledigaeth ac amcanion Strategaeth Gorfforaethol CCAUC, gan gynnwys ein dyletswyddau tuag at ein staff fel cyflogwr, ac fel corff cyhoeddus tuag at y sector AU.

Caiff ein prosesau ar gyfer adnabod a rheoli risgiau, ynghyd â manylion y risgiau sylweddol a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn, eu nodi yn ein Datganiad Llywodraethu (rhan o'n Hadroddiad Atebolrwydd). Darperir gwybodaeth mewn perthynas â materion cymunedol, hawliau dynol, atal twyll ac atal llwgrwobrwyo fel rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff ar dudalen 42.

## Dadansoddiad ariannol

Mae cymorth grant rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2023-24 a'r flwyddyn a ddaeth i ben yn 2022-23 wedi aros ar yr un lefel ond bu gostyngiad sylweddol yn y dyfarniad cymorth grant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024-25, y cafodd rhan ohono ei gynnwys yn y 4 mis hyd at fis Gorffennaf 2024.

Nid yw'n bosibl cymharu gwariant rhwng y ddau gyfnod.

**Gwariant ar gyllido addysg uwch**

| | 16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Sefydliadau addysg uwch* | 287,419 | 210,506 |
| Sefydliadau addysg bellach | 1,563 | 900 |
| Arall | 4,603 | 5,786 |
| Cyfanswm | 293,585 | 216,742 |

*Wedi'i addasu ar gyfer gwariant a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop

£284.4m oedd y costau gweithredu net am y cyfnod o 16 mis (2022-23: £221.2m). Fel a nodwyd yn yr adran 'Trosolwg ariannol' uchod, roedd y cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru'n gyfanswm o £286.4m (2022-23: £218.3m) a gredydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr (gweler y 'Datganiad o'r sefyllfa ariannol' ar dudalen 50 a'r 'Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr' ar dudalen 53). Roedd sefyllfa gronnus y gronfa gyffredinol ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2024, ar ôl credydu'r cyllid cymorth grant y cyfeirir ato uchod, yn £3.6m (31 Mawrth 2023: £1.6m). Bydd y cyfrifon ariannol wastad yn cofnodi canlyniad costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gredydu cyllid gan Lywodraeth Cymru i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr. Cynllunnir ein gweithgareddau hefyd i sicrhau bod yr arian parod yr ydym yn ei gario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dal i fod o fewn y ffigwr o ddau y cant o gyfanswm cymorth grant ar gyfer diwedd y flwyddyn neu bedwar y cant ar gyfer y misoedd eraill, fel a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

Roedd gwariant o £14.0k ar eiddo, cyfarpar ac offer yn ystod y flwyddyn fel a nodir yn nodyn 8 isod (2022-23: £Dim).

**Gwariant arall 2023-24 (£000)**

| | 16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 £’000 | 2022-23 £’000 |
|---|---|---|
| Costau staff | 5,900 | 3,586 |
| Adeiladau | 150 | 101 |
| Arall | 1,256 | 461 |
| Cyfanswm | 7,306 | 4,148 |

**Dangosyddion perfformiad allweddol ariannol eraill**

£3.6m oedd y balans arian parod ar 31 Gorffennaf 2024, a oedd yn 1.97 y cant o gyfanswm yr arian cymorth grant a oedd ar gael (2022-23: £1.57m, 0.72 y cant) ac a oedd yn dal i fod o fewn yr uchafswm o 2% o gyfanswm y cyllid am y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, fel a nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

Rydym yn gweithredu o dan darged Llywodraeth Cymru i dalu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau o fewn deng niwrnod gwaith i gael anfoneb ddilys. Fe wnaethom dalu 89.1% (hyd at fis Mawrth 2024) ac 86.5% (hyd at fis Gorffennaf 2024) o’r anfonebau o fewn deng niwrnod gwaith, gydag amser talu cyfartalog o 2.5 diwrnod a 3.8 diwrnod yn y drefn honno (2022-23: 94.3% a chyfartaledd o 1.9 diwrnod).

Mae gweithgarwch caffael CCAUC yn ystyried datganiad polisi ac egwyddorion Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r pum ffordd o weithio, dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 (gweler isod) a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd yn ceisio mabwysiadu arfer gorau o ran caffael yn y DU, yn sector cyhoeddus a sector AU Cymru.

Mae CCAUC yn prynu’n gynaliadwy, gan ddefnyddio offer e-gaffael i gyflawni ei weithgarwch caffael. Ym mlwyddyn ariannol 2021-22 (y data diweddaraf sydd ar gael), roedd arbedion effeithlonrwydd CCAUC ym maes caffael yn £7,194, sy’n arbediad canrannol o 4.6%. Fe wnaed yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn bennaf o ganlyniad i ddefnyddio cytundebau cydweithredol a fframwaith. Mae arbedion effeithlonrwydd yn cael eu hysgogi, hyd y gellir, o’r swm cymharol fach o wariant yr ydym yn ei ddefnyddio i brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

## Cynaliadwyedd

Cyhoeddwyd adroddiad ar wahân ar faterion cynaliadwyedd gan nad yw Medr yn gallu cymeradwyo materion Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol na Bioamrywiaeth.



Simon Pirotte
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
19 Tachwedd 2024

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Diben yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yw egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CCAUC a sut y maent o gymorth i gyflawni amcanion CCAUC.

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Aelodaeth y Cyngor

Gwasanaethodd y bobl ganlynol fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn yr adroddir arni:

#### Cadeirydd

Rob Humphreys CBE, FLSW, Cadeirydd (Cyfnod yn y Swydd: 05/01/22 tan 04/07/23. Wedi'i ail-benodi ar 05/07/23 nes diddymu CCAUC*). Cyn-gyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru*

#### Prif Weithredwr (a Swyddog Cyfrifyddu)

Dr David Blaney (hyd at fis Chwefror 2024)

Ms Bethan Owen (Prif Weithredwr Interim o fis Chwefror 2024)

#### Aelodau eraill y Cyngor:

| Enw | Hanes personol | Cyfnod yn y swydd* | Aelodaeth o Bwyllgorau |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Mark Smith CBE (Dirprwy Gadeirydd) | Llywydd ac Is-Ganghellor, Prifysgol Southampton | 01/01/22 tan 30/06/23 Wedi'i ailbenodi ar 01/07/23 nes diddymu CCAUC | Pwyllgor Ymchwil Cymru (Cadeirydd) |
| Yr Athro Aaqil Ahmed | Athro yn y Cyfryngau, Prifysgol Bolton a Chyn-bennaeth Crefydd a Moeseg yn y BBC a Channel 4 | 07/04/21 tan 06/04/26 | Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cadeirydd)<br><br>Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol (Cadeirydd)<br><br>Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr |
| James Davies | Prif Weithredwr, Diwydiant Cymru | 01/12/20 tan 31/03/24 | Pwyllgor Ymchwil Cymru<br><br>Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr |

| Enw | Hanes personol | Cyfnod yn y rôl* | Aelodaeth o Bwyllgorau |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Tracy Bhamra | Uwch Is-Bennaeth (Profiad Myfyrwyr a Staff), Royal Holloway, Prifysgol Llundain | 01/04/22 tan 31/03/27 | Pwyllgor Ymchwil Cymru<br><br>Pwyllgor Rheoleiddio<br><br>Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Yr Athro Christine Ennew, OBE | Profost, Prifysgol Warwick | 22/04/21 tan 21/04/26 | Pwyllgor Rheoleiddio (Cadeirydd)<br><br>Pwyllgor Adnoddau Dynol<br><br>Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol |
| Dr John Graystone | Ymgynghorydd Addysg a chyn Brif Weithredwr Colegau Cymru Colleges Wales | 01/08/21 tan 31/07/26 | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Cadeirydd)<br><br>Pwyllgor Asesu Ansawdd<br><br>Pwyllgor Adnoddau Dynol<br><br>Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol |
| Yr Athro Helen Marshall | Is-Ganghellor, Prifysgol Salford | 01/12/20 tan 30/11/25 | Pwyllgor Asesu Ansawdd (Cadeirydd)<br><br>Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr |
| Charlotte Hitchings | Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Partneriaeth Iechyd Meddwl Avon a Wiltshire | 05/05/20 to 04/05/23 Wedi'i hailbenodi ar 05/05/23 nes diddymu CCAUC | Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr (Cadeirydd)<br><br>Pwyllgor Rheoleiddio |

* Mae cyfnodau aelodau'r Cyngor yn eu rôl yn y tabl uchod yn adlewyrchu'r dyddiadau a oedd wedi'u cynnwys yn eu llythyrau penodi oddi wrth y Gweinidog. Fodd bynnag, daeth cyfnodau holl aelodau'r Cyngor i ben ar ddyddiad diddymu CCAUC, sef 31 Gorffennaf 2024.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio'r Pwyllgor Enwebiadau (y mae ei aelodau'n cynnwys Cadeiryddion pob un o'r pwyllgorau eraill a restrir uchod) ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Mae Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru'n sylwedydd ar Gyngor CCAUC ac yn aelod o'r Pwyllgor Asesu Ansawdd, y Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr a'r Pwyllgor Rheoleiddio.

### Cyfansoddiad y Bwrdd Rheoli

Bwrdd Rheoli CCAUC sy'n gyfrifol am ein rheolaeth a'n gweithrediad. Mae'n cynnwys: y Prif Weithredwr; Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid; Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Dadansoddi; a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

### Datganiadau o fuddiannau

Mae manylion y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Cyngor ar gael ar gais oddi wrth Medr, yn gwybodaeth@medr.cymru.

### Digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â data personol

Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â data personol yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 16(2) atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, wedi cyfarwyddo CCAUC i baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a hwnnw ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail groniadol a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa CCAUC ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

- ymlynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel a nodir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu CCAUC. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau CCAUC, eu nodi yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

### Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i'm gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr CCAUC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



Simon Pirotte
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
19 Tachwedd 2024

## Datganiad Llywodraethu

## Fframwaith Llywodraethu / Llywodraethu Corfforaethol

### Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu CCAUC, rwy'n atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel ei Brif Swyddog Cyfrifyddu am gyflawni fy nghyfrifoldeb am gynnal systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn. Mae'r systemau hyn o gymorth i gyflawni ein polisïau a'n hamcanion strategol, gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau CCAUC yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod yr arian cyhoeddus ac asedau a aseiniwyd i CCAUC yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf hefyd yn cydnabod fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'r arian a ddarperir ar gyfer CCAUC, a ddyrennir i ddarparwyr addysg uwch a phellach ac eraill at ddibenion addysg, ymchwil a chysylltiedig.

### Cyngor CCAUC

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2024, roedd y Cyngor yn cynnwys 9 aelod. Fe barhaodd y Cyngor i gael budd o aelodaeth amrywiol o ran y cymysgedd o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ac i wneud gwaith manwl i fonitro amrywiaeth a chymysgedd sgiliau aelodaeth amryw bwyllgorau'r Cyngor ac wrth geisio cynrychiolaeth allanol newydd, i fynd ati'n frwd i annog pobl o grwpiau a oedd heb gynrychiolaeth ddigonol ar y pryd i gyflwyno ceisiadau.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn, cafodd y Cyngor wyth cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd dau Weithdy ar gyfer y Cyngor ac fe gynhaliwyd tri ymweliad gan y Cyngor â darparwyr a reoleiddir. Cafwyd cyfanswm o 68 allan o 78 presenoldeb posibl gan aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Mae gan gynrychiolwyr o Research England a Chyngor Cyllido'r Alban, a Llywydd UCM Cymru, statws sylwedyddion ar y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o bwyllgorau i ymdrin â meysydd busnes penodol y tu allan i brif gyfarfodydd y Cyngor:

*Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*
Mae'n darparu sicrwydd annibynnol ar gyfer y Cyngor ynghylch effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg CCAUC, ac mae'n darparu goruchwyliaeth ar waith sicrwydd sefydliadol CCAUC.

*Pwyllgor Asesu Ansawdd*
Mae'n cyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor mewn perthynas ag asesu ansawdd sy'n deillio o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

*Pwyllgor Rheoleiddio*
Mae'n cynghori'r Cyngor ynghylch cyflawni cyfrifoldebau rheoleiddiol CCAUC dan Ddeddf AU (Cymru) 2015.

*Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr*
Mae'n cynghori'r Cyngor ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â chyfleoedd a chyflawniad myfyrwyr mewn addysg uwch, gan gynnwys Cyfrwng Cymraeg, ehangu mynediad, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sgiliau a chyflogadwyedd, gan amcanu at sicrhau bod addysg uwch yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

*Pwyllgor Ymchwil Cymru*
Mae'n cynghori'r Cyngor ynghylch strategaethau ar gyfer gweithgareddau arloesi, ymgysylltu ac ymchwil a'r polisïau ac egwyddorion sy'n eu tanategu, gan gynnwys trefniadau cyllido.

*Pwyllgor Adnoddau Dynol*
Mae'n ystyried ac yn cymeradwyo holl faterion CCAUC sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

*Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol*
Mae'n ystyried materion sy'n effeithio ar berfformiad a chydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr, gan roi ystyriaeth briodol i farn aelodau'r Cyngor, ac yn cyflwyno argymhellion ynghylch cymeradwyo i Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ystyried perfformiad y Dirprwy Brif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Cyngor.

*Pwyllgor Enwebiadau*
Mae'n penodi aelodau'r Cyngor a phobl ag arbenigedd addas nad ydynt yn aelodau'r Cyngor i bwyllgorau'r Cyngor, fel y bo'n berthnasol i gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau.

**Prosesau ac effeithiolrwydd llywodraethu**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth effeithiol a sefydlu nodau ac amcanion strategol CCAUC. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo strategaeth gorfforaethol a chynlluniau busnes blynyddol CCAUC a monitro'r cynnydd yn eu herbyn. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith yn CCAUC i ddarparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddangos safonau llywodraethu corfforaethol uchel drwy'r amser, ac wrth gyflawni eu dyletswyddau rhaid i aelodau'r Cyngor ymlynu wrth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan). Gwneir penderfyniadau'r Cyngor ar sail cydgyfrifoldeb, a chaiff y casgliadau y doir iddynt yn ei gyfarfodydd eu goleuo gan dystiolaeth empirig ac yn dilyn trafod, dadlau a herio manwl gan aelodau'r Cyngor. Caiff penderfyniadau'r Cyngor eu cofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion, ac adroddir yn ôl ar gamau gweithredu a gymerwyd ar faterion a ddirprwywyd i'r weithrediaeth trwy gyfrwng papur Materion yn Codi sefydlog. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo blaengynllun yn flynyddol sy'n cynnwys eitemau busnes allweddol, ac mae'n cymeradwyo blaengynlluniau'n flynyddol a gyflwynir gerbron gan bob un o'i bwyllgorau. Mae'r Cyngor yn cael adborth ar waith ei Bwyllgorau trwy ddiweddariadau gan gadeiryddion pwyllgorau ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor a thrwy gael cofnodion cyfarfodydd pob un o bwyllgorau'r Cyngor. Gall pwyllgorau hefyd godi unrhyw fater y maent yn credu y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor mewn perthynas â'u cylch gwaith a'u cyfrifoldebau.

Yn 2020, cafodd y Cyngor adroddiad ar adolygiad arbenigol annibynnol yr oedd wedi'i gomisiynu o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor yn cael ei lywodraethu'n dda a bod aelodau'r Cyngor yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i'w cyfrifoldebau llywodraethu, gan ddarparu trosolwg gref ac effeithiol a her adeiladol. Ychwanegodd yr adolygiad hefyd fod trefniadau'r Cyngor yn cael eu hategu gan set gynhwysfawr o ddogfennau a phrosesau llywodraethu o ansawdd da. Fe gytunodd y Cyngor ar gynllun gweithredu ar gyfer gweithredu ar nifer o argymhellion yr adroddiad, ac roedd y rhain i gyd wedi cael eu rhoi ar waith erbyn diwedd 2021-22.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PASR) yn adolygu ei brosesau yn erbyn y gofynion a'r argymhellion a nodir yn *Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg* Trysorlys EM, ac mae wedi cytuno i ddefnyddio *Rhestr Wirio Effeithiolrwydd Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg* y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gynnal adolygiadau hunanasesu blynyddol o effeithiolrwydd llywodraethu. Mae'r adolygiadau blynyddol hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o drafodaethau un-i-un y Cadeirydd gydag aelodau; myfyrio ynghylch sgiliau aelodau'r Pwyllgor; ac adolygiad o Gylch Gorchwyl a Blaengynllun Blynyddol y Pwyllgor. Yn yr ymarfer adolygu

diweddaraf ym mis Rhagfyr 2023, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n unol ag arfer gorau a dderbynnir ar gyfer pwyllgorau archwilio, a bod ei aelodau'n dal i gwmpasu'r sgiliau a chymwyseddau a nodir yn y *Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg*.

O ystyried ei bwysigrwydd cyffredinol fel risg bosibl i bob sefydliad, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gael diweddariad blynyddol gan CCAUC a'i archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, ar faterion seiberddiogelwch. Ers 2021-22 mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau fel eitem sefydlog ar yr agenda ar ddatblygiadau mewn perthynas â'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a chynlluniau Llywodraeth Cymru i sefydlu Medr, ac ar brosiect cau CCAUC a'r broses bontio ar gyfer trosglwyddo ei swyddogaethau i Medr.

Mae gweithrediaeth CCAUC yn cynnal Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfio â'r gofynion a osodir arnom yn y Ddogfen Fframwaith, a adolygir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac y cyflwynir adroddiad arno i'r Cyngor. Dangosodd adolygiad eleni ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hynny.

## Cyflawni ein cyfrifoldebau statudol

Cafodd ein pwerau rheoleiddiol eu mwyhau trwy Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, gan gynnwys dyletswyddau penodol i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad a monitro'r modd y mae darparwyr addysg uwch yn cydymffurfio â hwy ac asesu ansawdd addysg.

Rhaid i sefydliadau yng Nghymru sy'n dymuno bod eu cyrsiau israddedig a TAR amser llawn yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gyflwyno cynllun ffioedd a mynediad i ni. Os cymeradwyir y cynllun ffioedd a mynediad hwnnw, gall myfyrwyr ar y cyrsiau israddedig a TAR amser llawn hynny gael y cymorth hwnnw i fyfyrwyr, gan gynnwys benthyciad ffioedd dysgu hyd at y terfyn ffioedd dysgu uchaf ar gyfer Cymru (£9,000 y flwyddyn ar hyn o bryd, gan gynyddu i £9,250 o fis Awst 2024).

Ers 1 Ebrill 2018, rhaid i ddarparwyr addysg uwch sy'n dymuno bod eu cyrsiau'n cael eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr fesul achos unigol gyflwyno cais i CCAUC, gyda cheisiadau'n cynnwys tystiolaeth ategol. Rydym yn ystyried yr wybodaeth hon ac yn cyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru sy'n nodi a ddylai cyrsiau penodol gael eu dynodi ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan ymgeiswyr.

Rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol am ansawdd dan y Ddeddf trwy ein Pwyllgor Asesu Ansawdd. O flwyddyn academaidd 2016/17 fe wnaethom newid i drefniadau asesu ansawdd diwygiedig dan ein Fframwaith Asesu Ansawdd, sy'n gosod mwy o gyfrifoldeb ar gyrff llywodraethu darparwyr a reoleiddir i gael eu sicrhau ynghylch ansawdd y ddarpariaeth y maent yn trefnu iddi fod ar gael a'r dyfarniadau a gynigir.

Mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad ei fod yn sicrhau y bydd ei benderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* – hynny yw, bod CCAUC yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Yn ystod y cyfnod adrodd fe gymeradwyodd y Cyngor adroddiad blynyddol CCAUC i Lywodraeth Cymru ar swyddogaethau rheoleiddiol CCAUC; Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 a 2023-24; a'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022-23.

### Adrodd wrth Lywodraeth Cymru

Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru dan delerau'r Ddogfen Fframwaith. Mae staff o'r Adran a CCAUC yn cwrdd yn ffurfiol oddeutu chwe gwaith y flwyddyn.

Cawsom ein llythyr cylch gwaith cychwynnol ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2023. Ym mis Awst 2023, fe gyflwynom ni ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-24 i'r Gweinidog, ac fe gawsom ein hysbysu ym mis Tachwedd 2023 bod y Gweinidog wedi nodi'r Cynllun. Bu ein Cyngor yn cael adroddiadau chwemisol ar gynnydd yn erbyn y targedau yn ein cynllun busnes. Cawsom ein llythyr cylch gwaith 2024-25 ar 18 Mawrth 2024 ac, fel oedd yn ofynnol gan y llythyr, fe gyflwynom ni i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mai 2024 ddiweddariad i'n Cynllun Busnes a oedd yn bodoli eisoes, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024.

Mae'r Gweinidog yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cadeirydd, gyda'r Prif Weithredwr yn bresennol ar gyfer bob yn ail gyfarfod o'r rhain, sy'n galluogi'r Gweinidog i fonitro'r modd yr ydym yn cyflawni ein hamcanion strategol ac yn rhoi cyfle i ni gynghori'r Gweinidog.

Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y modd yr ydym wedi cyflawni ein swyddogaethau dan y Ddeddf. Roedd ein Hadroddiad Rheoleiddiol Blynyddol diweddaraf yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2022/23.

### Ymdrin â chwynion

Mae gennym Bolisi Cwynion sy'n seiliedig ar y Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol a luniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ein herbyn yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn.

### Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn gweithio gydag ystod o gyrff sy'n bartneriaid yng Nghymru a'r DU i gyflawni ein hamcanion a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac mewn nifer o achosion rydym wedi sefydlu memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda'r sefydliadau hyn sy'n bartneriaid.

### Effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol

Rydym yn gweithredu system o reolaeth fewnol, sydd wedi'i bwriadu i: adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisïau a'n hamcanion strategol; gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu; a'u rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rheolaethau a threfniadau sicrwydd mewn perthynas â sefydliadau sy'n cael ein cyllid ac yr ydym yn eu rheoleiddio. Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru a gyllidir gennym gydymffurfio â Thelerau ac Amodau Cyllido sy'n nodi'r telerau ac amodau y mae'n rhaid iddynt ymlynu wrthynt am bod grant gan CCAUC yn cael ei dalu iddynt, ac sy'n ein helpu ni i sicrhau atebolrwydd am reoleidd-dra a phriodoldeb o ran defnyddio'r arian cyhoeddus a ddarperir ar eu cyfer. Mae'n ofynnol hefyd i ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Cod Rheolaeth Ariannol, sy'n nodi'r gofynion o ran trefnu a rheoli materion ariannol y mae'n rhaid i sefydliadau a reoleiddir ymlynu wrthynt. Rydym yn ystyried ystod gynhwysfawr o ddatganiadau a ddarperir ar ein cyfer gan ddarparwyr – gan gynnwys cynlluniau ffioedd a mynediad, a chyfrifon blynyddol darparwyr – fel rhan o'n gwaith i sicrhau y gwarchodir y buddsoddiad cyhoeddus mewn darparwyr. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ceisio sicrwydd bod yr arian cyhoeddus a ddarparwyd ar gyfer darparwyr wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion yr oedd wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

Mae pob un o'n rheolaethau allweddol – y cofrestrau risgiau, y datganiadau ariannol ac adroddiad a sylwadau'r archwilwyr allanol arnynt, adroddiadau archwilio mewnol ac adolygiadau risg ac adroddiadau sicrwydd sefydliadol – wedi cael eu ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n adrodd arnynt wrth ein Cyngor.

Ni wnaeth datganiad barn blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer 2023-24 amlygu unrhyw faterion mawr na gwendidau difrifol yn ein rheolaethau mewnol yn ystod y flwyddyn sy'n deilwng o gael eu datgelu yma.

Cafodd y cynllun archwilio mewnol ei ddiwygio ar gyfer y cyfnod 2022-24 i ganolbwyntio adnoddau archwilio ar reolaethau allweddol hanfodol yn ystod y cyfnod nes cau CCAUC ar ddiwedd mis Gorffennaf 2024. Nid yw'n cynnwys unrhyw sicrwydd ynghylch systemau na phrosesau a ddatblygwyd gan staff CCAUC ar gyfer Medr, ond mae'n cynnwys darparu sicrwydd ynghylch unrhyw brotocolau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys ateb unrhyw geisiadau penodol am sicrwydd ynghylch prosesau CCAUC tan ddiwedd mis Gorffennaf 2024.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu'r barnau canlynol ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cyngor:

- Fe wnaed digon o waith archwilio mewnol i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

- Mae trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer CCAUC wedi bod yn ddigonol ac yn effeithiol yn ystod y flwyddyn ac felly gall y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu ddibynnu'n rhesymol arnynt.

**Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir gan y bwrdd, a pham fod y bwrdd yn ei gael yn dderbyniol**

Rydym yn defnyddio gwybodaeth am ddarparwyr addysg uwch a gesglir trwy nifer o arolygon data a cheisiadau am wybodaeth, gan gynnwys data myfyrwyr a gesglir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a Llywodraeth Cymru ar ein rhan, a hefyd yn erbyn set o fesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad AU yr ydym wedi'u datblygu. Rydym yn defnyddio'r data at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys cyfrifo dyraniadau cyllid a monitro cyfle cyfartal, ac i fonitro perfformiad y sector addysg uwch a sefydliadau unigol yng Nghymru. Mae'r data a ddefnyddir gennym yn mynd trwy brosesau gwirio ac archwilio trylwyr.

Rydym wedi datblygu System Rheoli Gwybodaeth sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddata am berfformiad pob sefydliad yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cytuno y dylai CCAUC ddatblygu fframwaith sicrwydd. Roedd y fframwaith sicrwydd, sy'n galluogi'r Pwyllgor i adnabod, cynllunio a mynd ati'n effeithiol i fonitro ffynonellau sicrwydd allweddol a materion arwyddocaol, yn ei le yn 2022-23. Fe wnaeth adroddiadau o'r Fframwaith Sicrwydd ategu'r cynllun archwilio mewnol a galluogi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i asesu sut y mae sicrwydd yn cael ei ddarparu ynghylch risgiau corfforaethol allweddol ac a oes defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r adnoddau archwilio mewnol y mae pen draw iddynt. Fe wnaeth yr adroddiad blynyddol ar ddeilliannau sicrwydd gefnogi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei rôl i roi cyngor a rhoi barnau i'r Cyngor ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn CCAUC, gan gynnwys cofrestr risgiau corfforaethol CCAUC a'r Datganiad Llywodraethu. Mae'r diweddariadau i'r gofrestr risgiau a deilliannau'r cynllun busnes yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd yn y fframwaith sicrwydd, ond er ei fod yn cael ei gynnal ni fydd unrhyw waith pellach i ddatblygu'r fframwaith na'r gronfa ddata ategol yn y cyfnod nes diddymu CCAUC.

**Sicrwydd treth ar gyfer cyflogeion nad ydynt ar y gyflogres**

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyflogeion nad ydynt ar y gyflogres yn ystod y cyfnod o 16 mis nac yn y flwyddyn flaenorol.

**Trefniadau chwythu'r chwiban**

Cafodd ein polisi chwythu'r chwiban a gweithdrefnau ategol eu diwygio ddiwethaf ym mis Mehefin 2022, ac fe graffwyd arnynt gan ein Pwyllgorau Adnoddau Dynol ac Archwilio a Sicrwydd Risg. Nod y polisi yw annog staff i roi gwybod am faterion sy'n peri pryder priodol ac sydd er budd y cyhoedd yn eu tyb hwy, naill ai yn y gweithle neu'n allanol, ynghylch perygl, risg, camarfer neu ddrwgweithred. Ni roddwyd gwybod am unrhyw faterion chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn ac felly nid yw'n bosibl adrodd ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn.

**Prosesau rheoli risg**

Rydym yn cydnabod bod rhaid i ni gymryd risgiau i gyflawni ein hamcanion. Rydym yn gwneud hynny dan reolaeth er mwyn lleihau'r risgiau yr ydym yn agored iddynt i lefel y tybir ei bod yn dderbyniol, gan daro cydbwysedd ar yr un pryd rhwng hyn a dyhead i gefnogi arloesi a defnydd dychmygus o adnoddau er mwyn cyflawni manteision.

Mae gennym Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a danategir gan Gofrestrau Risgiau Timau, a Log Materion yr ydym yn trosglwyddo risgiau sydd wedi crisialu iddo. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Cyngor dair gwaith y flwyddyn. Mae unrhyw risgiau gweddillol a nodir yn ein proses gwerthuso risg, ar ôl ystyried y rheolaethau sydd ar waith neu'r rhai yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith, yn cynrychioli'r bygythiad gwirioneddol neu bosibl i CCAUC ar y pryd. Nid yw nodi'r risgiau hyn yn golygu y byddant yn siŵr o ddigwydd. Yn hytrach, mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn dynodi meysydd risg y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt ac ymateb iddynt er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol. Mae monitro ac asesu risgiau allweddol a'r rheolaethau cyfredol yn ein galluogi i werthuso effaith yr ansicrwydd mawr hwn ar amcanion ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun gweithredol. Lle y bo'n briodol, gallwn addasu ein mesurau rheolaeth.

Ochr yn ochr â'r brif Gofrestr Risgiau Corfforaethol, rydym yn cadw Cofrestr Gorfforaethol o'r Risgiau o Dwyll a Llwgrwobrwyo ar wahân, sy'n cynnwys y risgiau sy'n uwch na'r terfyn goddefiant, os bydd unrhyw risgiau o'r fath yn codi.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Cyngor hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd ar ein system adolygu risgiau sefydliadol, y broses a ddefnyddir gennym i asesu a monitro proffil risg cyffredinol pob darparwr Addysg Uwch.

**Risgiau a materion sylweddol**

Mae ein risgiau mwyaf sylweddol dros y cyfnod adrodd yn dal i ymwneud â phwysau o ran llwyth gwaith sy'n deillio o gefnogi'r paratoadau ar gyfer sefydlu Medr, a gweithredu prosiect cau CCAUC, a tharo cydbwysedd rhwng y galwadau hynny a'r gofyniad i barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau cyllido a rheoleiddio'n llawn. Yn gysylltiedig â'r pwysau hyn roedd y risgiau parhaus i forâl staff, yn anad dim oherwydd yr oedi cyn diddymu CCAUC tan 1 Awst 2024.

Mae'r oedi cyn cau CCAUC wedi effeithio ar brosesau cynllunio a gweithrediadau CCAUC, a chan hynny mae wedi creu rhai risgiau ychwanegol. Mae wedi ysgogi adolygiadau parhaus o Gofrestr Risgiau Corfforaethol CCAUC a phrosiect cau CCAUC a newidiadau parhaus i'r rhain, y darparwyd diweddariadau ar y ddau i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Cyngor.

*Llwyth gwaith a morâl staff*
Rydym yn cydnabod mai ein cyflogeion yw ein hased mwyaf. Mae'r oedi estynedig cyn diddymu CCAUC wedi gwaethygu risgiau a heriau presennol a achosir gan bwysau llwyth gwaith estynedig, yn enwedig gan bod nifer o staff wedi bod yn chwarae mwy o ran yn y paratoadau i Medr ddod yn weithredol, neu mewn gwaith a fydd yn cael ei gyflawni gan Medr, gan barhau i ymdrin â'u cyfrifoldebau yn CCAUC.

Bu gan staff bryderon hefyd ynghylch bylchau o ran adnoddau yn strwythur Medr, ac ynghylch diffyg eglurder ynglŷn â manylion eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y dyfodol, a goblygiadau'r rhain ar gyfer llwyth gwaith yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod y pryderon hyn wedi cael effaith negyddol ar forâl staff, ac o bosibl llesiant ac iechyd staff, a bod hyn wedi creu'r risg y gallai staff ymddieithrio oddi wrth y prosesau neu adael eu rolau, a fyddai'n arwain at risgiau i barhad ac effaith ar broses bontio esmwyth ar gyfer trosglwyddo staff a swyddogaethau i Medr.

Risg bellach fu colli arbenigedd oherwydd ymadawiad uwch aelodau o staff allweddol, gan gynnwys Prif Weithredwr CCAUC ym mis Chwefror 2024 dan drefniant ymadael yn wirfoddol, ac ymddeoliad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddiwedd mis Mawrth.

Rydym wedi bod yn lliniaru'r risgiau hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Rydym wedi parhau i gynorthwyo ein staff i baratoi ar gyfer y broses bontio trwy ymgysylltiadau rheolaidd i rannu gwybodaeth, materion a phryderon. Mae gennym amryw bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u bwriadu i helpu i gadw staff, rheoli absenoldeb a chefnogi cysylltiadau â chyflogeion.

- Bu negeseuon eglur ar gyfer staff i ganolbwyntio ar swyddogaethau cyllido a rheoleiddio statudol CCAUC. Mae staff wedi bod yn cael eu hannog i gael trafodaethau gyda rheolwyr llinell ynglŷn ag agweddau ar weithgarwch CCAUC y gallai fod angen eu gohirio, eu rhannu neu eu hepgor i ddygymod â phwysau wrth i'r rhain gynyddu, ac rydym wedi parhau i adolygu gyda'r Cyngor sut yr oedd gwaith yn cael ei ailflaenoriaethu.

- Rydym wedi bod yn cofnodi ac yn monitro'r amser yr oedd staff yn ei dreulio ar weithgareddau Medr trwy gydol y flwyddyn.

- Rydym wedi recriwtio nifer o aelodau ychwanegol o staff eleni i wella ein capasiti mewn rhai meysydd. Penodwyd y Dirprwy Brif Weithredwr blaenorol yn Brif Weithredwr Interim a Swyddog Cyfrifyddu CCAUC o fis Chwefror, ac fe gytunwyd ar ddarpariaeth o fis Ebrill gyda gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru i ddarparu swyddogaeth archwilio mewnol ar gyfer CCAUC yn ystod y cyfnod interim hyd at ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol CCAUC i fod i ymddeol ar 31 Mawrth ond fe gytunodd i ohirio hyn tan 31 Gorffennaf i roi cymorth gyda'r broses bontio o CCAUC i Medr.

- Fe wnaethom barhau i ymgysylltu â Chyngor Gwaith CCAUC ac â chynrychiolwyr Undeb PCS a chynrychiolwyr cyflogeion nad ydynt yn aelodau o Undeb, ynghylch paratoadau ar gyfer diddymu a phryderon staffio.

- Roedd protocol yn ei le rhwng CCAUC, Medr a Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi egwyddorion i ddarparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau rhwng y tri sefydliad yn ystod cyfnod sefydlu Medr.

- Bu ymgysylltu parhaus â Chadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Phrif Weithredwr Medr, gan gynnwys presenoldeb gan aelodau o Fwrdd Medr yng nghyfarfodydd Cyngor a

Phwyllgorau CCAUC. Mae aelodau Bwrdd Rheoli CCAUC yn aelodau o Uwch Dîm Arwain Medr dan arweiniad Prif Weithredwr Medr, ac mae Penaethiaid Tîm CCAUC wedi bod yn cwrdd yn fwy rheolaidd ag uwch dîm Medr.

*Busnes y Cyngor a phwyllgorau a phrosiect cau CCAUC*
Fe wnaeth gohirio diddymiad CCAUC am bedwar mis arall greu risg efallai na fyddai aelodau'r Cyngor neu bwyllgorau ar gael i barhau neu'n dymuno parhau i wasanaethu yn ystod y cyfnod estynedig y byddai CCAUC yn weithredol. Yn ffodus, fe gytunodd digon o aelodau o'r Cyngor a phwyllgorau i aros ymlaen, fel bod y Cyngor yn dal i fod â chworwm a bod ein Pwyllgorau wedi gallu parhau i gyflawni eu priod gylchoedd gwaith.

Bu'n ofynnol i nifer o agweddau ar ein gwaith, y disgwylid yn ôl y dyddiad cau arfaethedig blaenorol iddynt gael eu cyflawni gan Medr wedi hynny, gael eu cwblhau gan CCAUC. Mae'r rhain wedi cynnwys cymeradwyo cyllidebau a dyraniadau addysg uwch ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, a oleuwyd gan lythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2024-25, a chymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

Bu angen i ni hefyd adolygu a gwneud diwygiadau sylweddol i brosiect cau CCAUC, ac rydym wedi parhau i ddiweddaru Dogfen Drosglwyddo CCAUC a anfonwyd ymlaen at Medr ar ddiwedd mis Gorffennaf.

*Contractau a gofynion adrodd CCAUC*
Fe wnaed peth wmbredd o waith i adolygu contractau CCAUC, ac fe weithredwyd i sicrhau bod y contractau hynny naill ai'n cael eu hestyn tan ein dyddiad cau newydd; yn cael eu canslo; neu'n cael eu paratoi i'w trosglwyddo i Medr ar adeg cau CCAUC.

Er mwyn ymdrin â dyletswyddau adrodd CCAUC, bu angen i ni gwblhau adroddiadau perthnasol mewn nifer o feysydd mewn perthynas â gweithgareddau ar gyfer 2023-24 a phedwar mis cyntaf 2024-25, i'w cymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod terfynol ym mis Gorffennaf.

*Trefniadau adeiladau a gweithio*
Daeth les CCAUC ar ei swyddfa ym Medwas i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Daethpwyd i gytundeb trwydded gyda Llywodraeth Cymru i ganiatáu mynediad parhaus i CCAUC at ystafell y gweinydd yn y swyddfa am gyfnod yn ystod 2024-25. Ar gyfer y cyfnod interim rhwng 1 Ebrill a diwedd mis Gorffennaf, fe gytunwyd y gallai staff CCAUC gyd-leoli gyda Medr yn ei swyddfa yng nghanol Caerdydd.

Mae gweithio hybrid bellach wedi'i sefydlu fel y norm ar gyfer y sefydliad, ac eleni fe gyflwynom ni *Ddatganiad a chanllawiau gweithio hybrid* newydd i staff, sy'n cynnwys manylion mesurau cefnogi a chyfrifioldebau cyflogeion. Rydym yn cydnabod y buom yn ffodus gyda'r cydnerthedd a ddangoswyd gan staff CCAUC, a chyda chadernid ein systemau a chymorth TG i alluogi trefniadau gweithio o bell i barhau mewn modd effeithiol.

*Materion allanol: sut y mae CCAUC wedi ymateb i risgiau i'r sector addysg uwch*
Fel cyrff awtonomaidd annibynnol, darparwyr addysg uwch sy'n bennaf gyfrifol am reoli a lliniaru risgiau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'r risgiau hynny'n berthnasol i CCAUC i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflawni ein cyfrifoldebau allweddol fel corff cyllido, corff rheoleiddio a dylanwadwr addysg uwch yng Nghymru mewn modd effeithiol ac effeithlon. Yn hyn o beth, rydym yn cydnabod hefyd ei fod er budd ehangach y cyhoedd bod CCAUC yn ceisio helpu i liniaru'r risgiau hyn i'r sector. Mae'r sector AU ledled y DU yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr rhyngwladol gydag arbedion o ran costau'n gorfod cael eu sicrhau lle ceir gostyngiadau sylweddol mewn incwm. Mae CCAUC wedi parhau i fonitro sefyllfa ariannol darparwyr trwy gydol y cyfnod hwn.

Cafwyd nifer o becynnau cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24 (ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran *Datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn: Cyllid* o'r Adroddiad hwn). Mae gennym brosesau dyrannu cadarn a theg sy'n sicrhau targedu priodol wrth ddosbarthu cyllid ac sy'n gyson â meini prawf Llywodraeth Cymru, gyda goruchwyliaeth gan Gyngor CCAUC. Rydym yn sicrhau tryloywder llawn ynghylch ein dull, gan gynnwys ymgynghori a chyhoeddi cylchlythyrau i gadarnhau ein penderfyniadau cyllido. Mae gennym drefniadau monitro cadarn ar gyfer y cyllid yr ydym wedi'i ddosbarthu, sy'n bwysig mewn cyd-destun lle gall y cyflymder a'r brys wrth ddarparu'r cyllid greu rhywfaint o risg, gan ei gwneud yn bosibl cyflwyno adroddiadau amserol i Lywodraeth Cymru.

Trwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn, rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni proses bontio esmwyth i sefydlu Medr o fis Awst 2024, gan hefyd sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'n holl gyfrifoldebau statudol.

**Dod â CCAUC i ben a throsglwyddo cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu**

Trwy roi adran 23 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ar waith, fe beidiodd CCAUC â bodoli ac fe'i diddymwyd ar 31 Gorffennaf 2024. Cafodd gweithgareddau parhaus CCAUC eu trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a sefydlwyd gan yr un Ddeddf. Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yr wyf fi'n Swyddog Cyfrifyddu iddo, sydd â chyfrifoldeb am y gweithgareddau parhaus hyn. Felly daeth cwblhau'r cyfrifon terfynol hyn ar ran CCAUC a chytuno arnynt, a'u cyflwyno i'r Senedd, yn gyfrifoldeb i mi o 1 Awst 2024.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf wedi dibynnu ar ddatganiadau a sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer CCAUC ar 31 Gorffennaf 2024. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar yr oruchwyliaeth ar systemau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a gyflawnwyd gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC yn ystod y cyfnod ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2024, fel a ddisgrifir yn ei adroddiad blynyddol a'i rôl i adolygu'r broses ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol a chyfrifon hyd at ei gyfarfod terfynol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024. Rwyf hefyd wedi cael adroddiad y rheolwyr ar eu harchwiliad o'r cyfrifon hyn ar gyfer 2023-24 gan archwilwyr allanol CCAUC, Archwilio Cymru.

**Casgliad**

Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol. Casgliad fy adolygiad yw bod strwythurau llywodraethu a rheolaeth fewnol CCAUC ar y cyfan yn briodol ar gyfer busnes CCAUC a'u bod wedi gweithio'n foddhaol trwy gydol y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2024.

Simon Pirotte
Swyddog Cyfrifyddu CCAUC (o 1 Awst 2024)
Prif Weithredwr, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
19 Tachwedd 2024

# Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff

Sylwer mai dim ond yr adrannau yn yr adroddiad hwn â nodwyd â * sy'n cael eu harchwilio.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr a'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol

Roedd cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor yn cael ei phennu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei llywodraethu gan Gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhoi Cydnabyddiaeth Ariannol i Gadeiryddion ac Aelodau o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2004.

Roedd cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr (ac, o 10 Chwefror 2024, y Prif Weithredwr Interim) yn cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd yn cynnwys dyfarniadau a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad.

Roedd cydnabyddiaeth ariannol y Dirprwy Brif Weithredwr (hyd at 9 Chwefror 2024) a chyfarwyddwyr yn cael ei phennu yn unol â'n system cyflog a graddio gymeradwy, a oedd yn berthnasol i'r holl benodiadau staff. Roedd ein lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar y cyfan a'n cylch gwaith cyflog blynyddol, a oedd yn berthnasol i'r holl staff gan gynnwys y Dirprwy Brif Weithredwr a chyfarwyddwyr, yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru.

Roedd gennym Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, a oedd yn gyfrifol am adolygu perfformiad y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn flynyddol. Roedd gan y pwyllgor, a oedd yn cynnwys pum aelod, yr oedd tri ohonynt yn aelodau o'r Cyngor (gan gynnwys y Cadeirydd), awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor i ystyried materion a oedd yn effeithio ar gyflog y Prif Weithredwr ac roedd yn gwneud argymhellion i gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2023 ac fe adolygodd berfformiad y Prif Weithredwr ac fe gytunodd, yn seiliedig ar ei berfformiad yn 2022-23, y dylai'r dyfarniad cyflog cyfunedig a argymhellir ar gyfer 2023-24 fod yr un fath ag ar gyfer staff CCAUC (yn gyffredin â chodiadau cyflog blaenorol). Cadarnhawyd y cynnydd hwn yn ddiweddarach fel dyfarniad adbrisio o 5%, a gododd gyflog y Prif Weithredwr o £141,455 i £148,528.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn ddiweddarach ym mis Mehefin 2024 ac fe adolygodd berfformiad y Prif Weithredwr Interim ers ei phenodiad i'r swydd ym mis Chwefror 2024 ac fe gytunodd, yn seiliedig ar ei pherfformiad, y dylai'r dyfarniad cyflog cyfunedig a argymhellir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024 fod yr un fath ag ar gyfer staff CCAUC. Nid yw'r cynnydd hwn wedi cael ei gadarnhau eto ond bydd yn cael ei gymhwyso i'w chyflog ar adeg ei phenodi ar £148,528 y flwyddyn.

## Prif Weithredwr CCAUC

Diddymwyd CCAUC ar 31 Gorffennaf 2024. Daeth y corff newydd a ffurfiwyd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn llwyr weithredol ar 1 Awst 2024 dan Brif Weithredwr a strwythurau llywodraethu newydd.

Yn ystod y cyfnod terfynol hwn, fe adawodd Dr David Blaney ei rôl fel Prif Weithredwr ar 9 Chwefror 2024, cyn diwedd ei gontract dan delerau ymadael yn wirfoddol yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil ac fe gafodd daliad o £192,000. Fe wnaed didyniadau treth arferol o'r taliad hwn.

Dangosir cyfanswm enillion Dr Blaney yn y tabl isod.

Penodwyd Bethan Owen yn Brif Weithredwr Interim o 10 Chwefror 2024 ac fe ddangosir cyfanswm ei henillion hithau yn y tabl isod.

## Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflogau) a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn aelodau'r Cyngor ac uwch reolwyr.

**Cydnabyddiaeth ariannol uwch gyflogeion (cyflog a phensiynau)***

**Un ffigwr sy'n nodi cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol***

| Enw a swydd | Cyflog 2023-24 £'000 | Cyflog 2022-23 £'000 | Buddion pensiwn 2023-24 cynnydd/ (gostyngiad) £ | Buddion pensiwn 2022-23 cynnydd/ (gostyngiad) £ | Cyfanswm 2023-24 £'000 | Cyfanswm 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rob Humphreys (Cadeirydd) | 20-25 | 20-25 | Amh. | Amh. | 20-25 | 20-25 |
| Dr David Blaney (Prif Weithredwr hyd at 9 Chwe 2024) | 325-330 | 140-145 | 88,722 | (29,416) | 410-415 | 110-115 |
| Bethan Owen (Dirprwy Brif Weithredwr hyd at 9 Chwe 2024; Prif Weithredwr Interim o 10 Chwe 2024) | 110-115 | 100-105 | 92,925 | 9,661 | 205-210 | 110-115 |
| Nicholas Williams (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol hyd at 31 Gorff 2024) | 80-85 | 75-80 | 33,801 | (11,322) | 115-120 | 60-65 |
| Dr Alyson Thomas (Cyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol hyd at 3 Mai 2023) | 0-5 | 35-40 | (863) | 19,592 | 0-5 | 55-60 |
| Dr Ewen Brierley (Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Dadansoddi) | 80-85 | 75-80 | 23,615 | 26,894 | 105-110 | 100-105 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Harriet Barnes (Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid) | 75-80 | 70-75 | 29,778 | 27,009 | 105-110 | 95-100 |

Dim ond ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yr oedd ffigyrau buddion pensiwn ar gael gan weinyddwyr ein pensiynau Gwasanaeth Sifil ac nid oedd modd eu darparu hyd at 31 Gorffennaf 2024. Felly mae'r ffigyrau uchod ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 er mwyn cysondeb â'r flwyddyn flaenorol. Dangosir costau cyflogau ar gyfer yr 16 mis cyfan isod.

Caiff y ffigyrau 'Buddion pensiwn' uchod eu cyfrifo at ddibenion datgelu gan ein gweinyddwyr pensiwn. Cyfrifir y ffigyrau hyn fel y 'cynnydd real mewn pensiwn' (gweler y tabl 'Pensiynau uwch gyflogeion' isod) wedi'i luosi ag 20, a'r 'cynnydd real' mewn unrhyw gyfandaliad, namyn cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai yn y flwyddyn ariannol. Mewn rhai achosion uchod, mae'r effaith net wedi arwain at ostyngiad yn y buddion pensiwn ar y cyfan yn ystod naill ai 2023-24 neu 2022-23.

Y ffigyrau cydnabyddiaeth ariannol am y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2024 ar gyfer yr uchod oedd:

| **Enw a swydd** | **12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 £'000** | **4 mis hyd at 31 Gorff 2024 £'000** | **16 mis hyd at 31 Gorff 2024 £'000** |
|---|---|---|---|
| Rob Humphreys (Cadeirydd) | 20-25 | 05-10 | 30-35 |
| Dr David Blaney (Prif Weithredwr hyd at 9 Chwe 2024) | 130-135 | - | 130-135 |
| Bethan Owen (Dirprwy Brif Weithredwr hyd at 9 Chwe 2024; Prif Weithredwr Interim o 10 Chwe 2024) | 110-115 | 45-50 | 160-165 |
| Nicholas Williams (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol hyd at 31 Gorff 2024) | 80-85 | 25-30 | 105-110 |
| Dr Alyson Thomas (Cyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol hyd at 3 Mai 2023) | 0-5 | - | 0-5 |
| Dr Ewen Brierley (Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Dadansoddi) | 80-85 | 25-30 | 105-110 |
| Harriet Barnes (Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid) | 75-80 | 25-30 | 100-105 |

DS Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thaliadau bonws yn y cyfnod o 16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 na 2022-23 ar gyfer yr uchod.

Roedd y cyfanswm cyflog ar gyfer Rob Humphreys yn £32,352, sy'n gyfwerth â £24,264 y flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn (2022-23: £24,264).

Gwasanaethodd Dr David Blaney fel y Prif Weithredwr tan 9 Chwefror 2024, gan gael cyflog o £148,528 y flwyddyn. Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd yn y cyfnod yn cynnwys cyflog o £133,485 a setliad ymadael yn wirfoddol o £192,000.

Gwasanaethodd Bethan Owen fel y Dirprwy Brif Weithredwr tan 9 Chwefror 2024, gan gael cyflog o £105,500 y flwyddyn. Gwasanaethodd fel Prif Weithredwr Interim o 10 Chwefror, gan gael cyflog blynyddol o £148,528 y flwyddyn.

Gwasanaethodd Nicholas Williams fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol tan 31 Gorffennaf 2024, gan gael cyflog o £81,390 y flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn.

Gwasanaethodd Dr Alyson Thomas fel y Cyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol tan 3 Mai 2023 ar sail ran-amser 0.48 CagALI, gan gael cyflog o £38,866 y flwyddyn.

Gwasanaethodd Dr Ewen Brierley fel y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Dadansoddi, gan gael cyflog o £81,390 y flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn.

Gwasanaethodd Harriet Barnes fel y Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid, gan gael cyflog o £77,756 y flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn.

**Pensiynau uwch gyflogeion***

| Enw | Swydd | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/24 a'r cyfandaliad cysylltiedig £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000 | CETV ar 31/03/24 £'000 | CETV ar 31/03/23 £'000 | Cynnydd real mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rob Humphreys | Cadeirydd | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| Dr David Blaney | Prif Weithredwr (hyd at 9 Chwe 2024) | 90-95 | 2.5-5 | 2,069 | 1,871 | 81 |
| Bethan Owen | Prif Weithredwr Interim | 45 - 50 | 5 – 7.5 | 1,051 | 879 | 88 |
| Nicholas Williams | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 25 - 30 | 0 – 2.5 | 528 | 475 | 31 |
| Dr Alyson Thomas | Cyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol (hyd at 3 Mai 2023) | 20-25 a chyfandaliad 45-50 | - | 481 | 474 | -1 |
| Dr Ewen Brierley | Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Dadansoddi | 25 - 30 | 0 – 2.5 | 554 | 492 | 14 |
| Harriet Barnes | Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid | 0 - 5 | 0 – 2.5 | 59 | 34 | 16 |

Sylwer: Mae'r ffigyrau CETV ar gyfer 31.03.2023 wedi cael eu hailgyfrifo ar gyfer yr holl gyflogeion i ystyried yr addasiadau ar gyfer aelodau sydd o fewn cwmpas Rhwymedi 2015 ac ar gyfer pawb oherwydd newid ffactor yn y cyfnod adrodd.

**Datgeliadau cyflog a phensiwn***

Mae gan y Prif Weithredwr Interim a'r Cyfarwyddwyr gontractau parhaol, sy'n golygu bod cyfnod rhybudd o dri mis yn ofynnol. Ac eithrio'r posibilrwydd o daliad yn lle rhybudd, nid oes unrhyw ddarpariaethau cytundebol penodol ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar.

Nid yw'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr Interim a'r Prif Weithredwr blaenorol) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid ydynt yn cael unrhyw fuddion pensiwn y telir amdanynt gan CCAUC. Mae aelodau'r Cyngor (heb gynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr Interim a'r Prif Weithredwr blaenorol) yn cael cydnabyddiaeth

ariannol nad yw'n bensiynadwy o £5,076 y flwyddyn (gweler tudalennau 15-16 am restr lawn o Aelodau'r Cyngor).

Cyflogau/cydnabyddiaeth ariannol gros yw'r holl gyflogau/cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan na chafodd neb o aelodau'r Cyngor nac uwch aelodau o staff unrhyw gydnabyddiaeth ariannol arall na buddion mewn nwyddau, ac eithrio fel a ddatgelir isod.

**Pensiynau**

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill neu 'Alpha', sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes, ag 'Alpha'. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol ('Classic', 'Premium' neu 'Classic Plus'), gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa lawn ('Nuvos') gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu cyllido ac mae costau buddion yn cael eu talu ag arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn deng mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Fe newidiodd y rhai a oedd rhwng deng mlynedd a thair blynedd ar ddeg a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i Alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Gan bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gall aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (ac fe allai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae'r holl aelodau sy'n newid i Alpha yn cael 'bancio' eu buddion PCSPS, ac mae'r rhai â buddion cynharach yn un o bum adran cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan ydynt yn gadael Alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd naill ai yn PCSPS neu yn Alpha - fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn y PCSPS ac yn Alpha, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis rhwng naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'a brynir ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (Cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha. Mae buddion yn y cynllun Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fo cyflogai'n ymddeol. Ar gyfer Premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun Classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, hybrid yw Classic Plus gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un modd yn fras â Classic, a buddion ar gyfer gwasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un modd â Premium. Yn Nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn enilledig yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion Alpha yn cronni mewn ffordd debyg i Nuvos, heblaw mai 2.32% yw'r gyfradd

gronni. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis cyfnewid eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn Partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal and General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 8% ac 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy er mwyn talu costau yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu dros oedran pensiwn. 60 yw oedran pensiwn ar gyfer aelodau'r cynlluniau Classic, Premium a Classic Plus, 65 ar gyfer aelodau Nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau Alpha (mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd naill ai yn y PCSPS neu yn Alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn y PCSPS ac Alpha, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhannau o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

**Gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod**

Gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn wedi'i asesu'n actiwaraidd, a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, yw Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV). Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod dibynnol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn cymhwyster uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigyrau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnodd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

**Cynnydd real mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Pensiynau cydweddol (BBA)**

Mae trefniant pensiwn BBA yn rhoi hawl i'r derbynnydd gael buddion sy'n debyg i'r rhai a ddarperir gan gynllun Classic Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a ddisgrifiwyd uchod.

Rydym ni'n gyfrifol am gyllido buddion pensiwn. Mae gan gyn-Gadeirydd y Cyngor, yr Athro Syr Roger Williams, bensiwn BBA.

**Datgeliadau Cyflog Teg***

DS At ddibenion cymharol, mae ffigyrau 2023-24 isod yn seiliedig ar y ffigyrau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

| | 4 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Band yr aelod o staff â'r cyflog uchaf (cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol**) | 145-150 | 145-150 | 140-145 |
| | £ | £ | £ |
| Canolrif y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol** | 52,399 | 52,399 | 49,903 |
| Cymhareb | 2.8 | 2.8 | 2.8 |
| 25ain Ganran | 37,271 | 39,820 | 34,494 |
| 75ed Ganran | 52,399 | 53,889 | 56,014 |

**At ddibenion cyfrifo'r 'aelod o staff â'r cyflog uchaf' a 'chanolrif y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol' uchod, mae 'cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol' yn cynnwys costau cyflogau yn unig. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r 'buddion pensiwn' blynyddol a ddangosir uchod.

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol yr uwch gyflogai sydd â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a chanolrif cydnabyddiaeth ariannol staff y sefydliad.

Band cyflog yr uwch gyflogai â'r cyflog uchaf yn 2023-24 oedd £145,000 i £150,000 (2022-23 - £140,000 i £145,000). Roedd hyn 2.8 gwaith (2022-23: 2.8) yn fwy na chyflog canolrifol yr holl staff, sef £52,399 (2022-23: £49,903) Roedd ffigyrau 2023-24 yr un fath ar gyfer mis Mawrth a mis Gorffennaf.

Mae'r gymhareb ganolrifol wedi aros yr un fath ar draws y cyfnod ar 2.8. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, cafodd yr holl staff gan gynnwys y Prif Weithredwr godiad cyflog o 5% ac fe gafodd rhai aelodau o staff gynyddrannau blynyddol hefyd, ond nid yr uwch gyflogai â'r cyflog uchaf. Cafodd yr holl staff ac eithrio'r Prif Weithredwr godiad cyflog anghyfunol o £1,500 hefyd ym mis Gorffennaf 2023. Ni chafwyd unrhyw godiad cyflog yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. Oherwydd natur ein gwaith, mae gan CCAUC gyfran fawr o staff ar lefelau swyddi canolig, a chanlyniad hynny yw'r cymarebau canolrifol a ddangosir uchod.

Roedd y symudiad yng ngwerthoedd y 25ain a'r 75ed canrannau rhwng 2022-23 a 2023-24 (mis Mawrth a mis Gorffennaf) i'w briodoli i newidiadau yn lefelau'r uwch dîm yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr a phenodiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr Interim a pheidio â phenodi unrhyw un yn lle'r Dirprwy Brif Weithredwr. Fe wnaeth y taliad anghyfunol o £1,500 i bawb ac eithrio'r Prif Weithredwr achosi i ffigyrau mis Mawrth 2024 gynyddu ac yna gostwng yn ôl erbyn mis Gorffennaf 2024.

Fel sefydliad bach, gall amseriad penodiadau i swyddi gwag effeithio ar y gymhareb hon hefyd.

Yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023-24, cafodd y Prif weithredwr Blaenorol gyfanswm cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys y pecyn ymadael) a oedd yn fwy na'r uwch gyflogai â'r cyflog uchaf a nodir yma (2022-23: dim). Roedd cydnabyddiaeth ariannol yn amrywio rhwng

£23,260 a £148,528 ym mis Mawrth a rhwng £24,372 a £148,528 ym mis Gorffennaf (2022-23: rhwng £22,152 a £141,455).

## Adroddiad staff

### Niferoedd y staff yn ôl categori

Fe wnaethom gyflogi 55 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024, fel a ganlyn:

| | Nifer ar 31 Gorffennaf 2024 | Nifer ar 31 Mawrth 2024 | Nifer yn 2023 |
|---|---|---|---|
| Uwch Reolwyr | 4 | 5 | 6 |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr | 3 | 3 | 3 |
| Polisi a Chyllid | 16 | 16 | 17 |
| Rheoleiddio a Dadansoddi | 17 | 17 | 14 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 15 | 14 | 14 |
| | 55 | 55 | 54 |

Nid oedd un aelod o staff, o'r adran Rheoleiddio a Dadansoddi, uchod yn aelod parhaol o staff.

| | Nifer ar 31 Gorffennaf 2024 | Nifer ar 31 Mawrth 2024 | Nifer yn 2023 |
|---|---|---|---|
| Staff â chontract cyflogaeth parhaol yn y DU gyda ni | 54 | 54 | 53 |
| Aelodau eraill o staff a oedd yn gweithio ar ein hamcanion | 1 | 1 | 1 |
| | 55 | 55 | 54 |

## Costau staff

(a) **Dadansoddiad***

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 | | | 2023 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff | Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Interim) | Cyfanswm | Staff | Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Prif Weithredwr) | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 3,832 | 292 | 4,124 | 2,532 | 210 | 2,742 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 443 | 31 | 474 | 291 | 21 | 312 |
| Costau pensiwn eraill | 1,022 | 60 | 1,082 | 698 | 42 | 740 |
| Costau colli swyddi ac ymadael yn wirfoddol | 82 | 192 | 274 | - | - | - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm costau'r gyflogres | 5,379 | 575 | 5,954 | 3,521 | 273 | 3,794 |
| Namyn: | | | | | | |
| Staff ar secondiad | (54) | - | (54) | (52) | - | (52) |
| Taliadau a briodolir i gostau rhaglenni | - | - | - | (156) | - | (156) |
| Costau gweinyddu'r gyflogres | 5,325 | 575 | 5,900 | 3,313 | 273 | 3,586 |

Cafwyd cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn 2022-23 i dalu costau staff a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â pharatoi ar gyfer pontio i'r CADY. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y cyllid a gredydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Mae cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24 am yr un rhesymau wedi'i gynnwys fel 'incwm arall'.

(b) **Pensiynau**

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a adwaenir fel "Alpha" - yn gynlluniau buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr nas cyllidir, ond nid yw CCAUC yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Fe wnaeth Actwari'r Cynllun brisio'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2023-24 (y cyfnod o 16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024), roedd ein cyfraniadau cyflogwr o £1,078,630 yn daladwy yn eu cyfanrwydd i'r PCSPS a'r CSOPS (2022-23 £738,552) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod rhwng 26.6% a 30.3% o enillion pensiynadwy rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, ac ar un gyfradd unigol o 28.97% rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Fel arfer, bydd Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau gan y cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau eu pennu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2021-22, sydd i'w talu pan fo'r aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r rhai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Mae un o gyn-Gadeiryddion y Cyngor yn cael buddion pensiwn cydweddol (BBA) gyda'r PCSPS. Mae'r ddarpariaeth pensiwn BBA yn un na chyllidir, gyda buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac yn cael eu gwarantu gennym. Nid oes cronfa ac felly nid oes gwarged na diffyg nac asedau. Cyfrifir rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfer gwasanaethau gan Adran Actwari'r Llywodraeth bob dwy flynedd, a gwnaed hyn ar ddiwedd 2022-23 a'r cyfanswm oedd £18,000 ar 31 Mawrth 2023.

(c) **Niferoedd staff yn ôl rhyw**

| | Ar 31 Mawrth 2024 | Ar 31 Gorffennaf 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| *Dynion* | | | |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | 3 |
| Staff | 18 | 19 | 15 |
| *Menywod* | | | |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | 3 |
| Staff | 35 | 34 | 36 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 57 | 57 | 57 |

DS Yn y tablau uchod, adroddir ar staff a gyflogir fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn; fodd bynnag, adroddir ar fanylion y rhywiau fel niferoedd gwirioneddol.

Gan nad oes unrhyw ganllawiau eglur ynghylch sut i gynnwys cyflogeion anneuaidd neu draws wrth adrodd ar niferoedd staff wedi'u dadansoddi yn ôl rhyw, rydym wedi penderfynu peidio â chynnwys unrhyw gyflogeion nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ddynion nac yn fenywod, nes bydd canllawiau eglur wedi cael eu darparu. Mae'r holl staff wedi cael eu cynnwys yn y tablau 'niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn yn ôl categori' a 'costau staff - dadansoddiad', uchod.

(d) **Absenoldeb oherwydd salwch**

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 | Hyd at 31 Mawrth 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (%) | 0.5 | 0.75 | 0.6 |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 1.96 | 1.91 | 2.12 |
| Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd | 27 | 114 | 93 |
| Bras amcan o gost y diwrnodau gwaith a gollwyd | £5,492 | £22,744 | £16,578 |

DS Mae'r bras amcan o gost diwrnodau gwaith a gollwyd yn seiliedig ar y cyflog ar lefel 4 (cam 4), lefel staff rheolaeth ganol (gan gynnwys costau gorbenion).

Collwyd 0.75% a 0.5% o amser gweithio posibl yn 2023-24 hyd at fis Mawrth a hyd at fis Gorffennaf yn y drefn honno o ganlyniad i absenoldebau oherwydd salwch (2022-23 – 0.6%). Roedd y gyfradd flynyddol o ran absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2023-24 wedi cynyddu hyd at fis Mawrth ac yna fe ostyngodd ychydig bach hyd at fis Gorffennaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fel sefydliad bach, gall absenoldebau staff unigol gael effaith sylweddol ar y niferoedd hyn o un flwyddyn i'r llall.

Nid yw'r ffigyrau hyn ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch yn cynnwys absenoldebau a oedd yn gysylltiedig ag anabledd a Covid-19, er mwyn gwneud y gymhariaeth rhwng ffigyrau'n ystyrlon.

## Polisïau a materion eraill sy'n ymwneud â staff

Y ffocws eleni fu cefnogi staff trwy'r broses bontio estynedig i mewn i'r CADY.

Cyfyngedig fu'r gwaith datblygu polisïau o ganlyniad i gynnal swyddogaethau neu eu dirwyn i ben; fodd bynnag, yn dilyn yr estyniad i'r cyfnod cyn cau CCAUC, bu'n rhaid diweddaru rhai polisïau at ddibenion statudol, sef:

- Gweithdrefnau gweithio hyblyg – Newidiadau statudol i drefniadau gweithio hyblyg
- Absenoldeb tadolaeth – newidiadau statudol
- Polisi absenoldeb arbennig – cyflwyno newidiadau o ganlyniad i'r Ddeddf Absenoldeb Gofalwyr newydd

Fe drosglwyddodd cyflogeion CCAUC yn llwyddiannus i Medr ar 31 Gorffennaf 2024 ac fe gawsant lythyrau'n cadarnhau'r newid hwn dan Ddatganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus (COSoP). Er mai'r gred oedd nad oedd y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn berthnasol yn gyfreithiol i'r trosglwyddiad hwn, fe gytunodd pob parti, yn unol â Datganiad Ymarfer Swyddfa'r

Cabinet, y dylid dilyn egwyddorion TUPE i sicrhau bod cyflogaeth yr aelodau hynny o staff a oedd yn trosglwyddo'n cael ei diogelu yn yr un modd ac nad oeddent yn cael eu trin yn llai ffafriol na phe bai Rheoliadau TUPE wedi bod yn berthnasol.

*Gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a'r Undeb Llafur*

Mae cyfarfodydd a seminarau rheolaidd ar gyfer staff yn helpu i sicrhau cyfathrebu mewnol da ac yn darparu cyfleoedd i staff gyfrannu at y ffordd yr ydym yn gweithio. Fe wnaeth y cyfarfodydd staff ddal i gael eu cynnal bob pythefnos trwy alwad fideo i roi cymorth i weithio o bell, ac i roi gwybodaeth gyson i staff yn ystod blwyddyn newidiol.

Roedd CCAUC yn cydnabod Undeb PCS fel ei undeb llafur ar gyfer staff ac roedd y sefydliad yn ei gynnwys ac yn ymgynghori ag ef yn rheolaidd. Bu Cyngor Gwaith, y gallai cynrychiolwyr ei ddefnyddio i godi materion a oedd yn peri pryder i staff, ac a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o undeb PCS, yn cwrdd yn rheolaidd.

Buom yn cynnal arolygon bob dwy flynedd o agweddau staff, a fu o gymorth i ymgysylltu â staff. Digwyddodd yr arolwg yn ystod 2021-22 ac mae'n seiliedig ar Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Cafodd camau gweithredu a oedd yn deillio o'r arolwg hwn, ynghyd â gwerthusiadau eraill megis adborth o ddigwyddiadau staff, eu cynnwys yn ein cynllun gweithredu sefydliadol, a oedd yn hygyrch i'r holl staff ar ein mewnrwyd. Oherwydd y broses arfaethedig o bontio i'r CADY, ni chynhaliwyd arolwg staff yn 2023-24.

*Cydraddoldeb ac amrywiaeth*

Roeddem yn ymrwymedig i ddatblygu ein polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth i sicrhau bod yr holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig fel a ddiffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Fe barhaodd y Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gwrdd trwy gydol 2023-24, gan barhau i adolygu arferion recriwtio gyda'r nod o wella amrywiaeth staff o fewn CCAUC a datblygu manyleb hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r holl staff. Cyflwynwyd cwrs hyfforddi 'CCAUC sy'n gynhwysol' i'r holl staff gan ddilyn gofynion a amlinellwyd gan y Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac fe gynhaliwyd hwn rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ionawr 2024.

Roedd ein polisi ar recriwtio'n seiliedig ar Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth agored a theg. Fe wnaethom adeiladu ar hyn trwy gymryd camau gweithredu cadarnhaol i ymdrin â'n proffil amrywiaeth a diweddaru ein datganiad recriwtio cydraddoldeb, yn ogystal â chynnig digwyddiadau recriwtio "gofynnwch unrhyw beth" lle gallai ymgeiswyr ddod a chwrdd â staff CCAUC, gan gynnwys Adnoddau Dynol, i ofyn cwestiynau am ein swyddi gwag a'n proses recriwtio.

Fe enillom ni'r achrediad 'Hyderus o ran Anabledd' ac fe wnaethom gyflawni'r pum ymrwymiad mewn perthynas â recriwtio, hyfforddiant, cadw, ymgynghori ac ymwybyddiaeth o anabledd. Cafodd yr achrediad hwn ei ailasesu ym mis Gorffennaf 2022 a'i adnewyddu am dair blynedd bellach.

Yn unol â'r ymrwymiadau hyn, byddai unrhyw ymgeisydd sy'n datgan ei fod yn anabl, boed yn ymgeisydd mewnol neu allanol, yn cael cynnig cyfweliad os yw'n bodloni isafswm y gofynion ar gyfer y rôl.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer staff hefyd, lle y bo'n bosibl, oherwydd afiechyd neu nodwedd warchodedig. Gwneir y trefniadau hyn mewn trafodaeth rhwng y cyflogai, ei reolwr llinell a'r adran Adnoddau Dynol, neu gyflogai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb.

*Bwlch cyflog rhwng y rhywiau*

Mae bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau CCAUC o -2.81% yn welliant yn ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn dangos bod menywod ar gyfartaledd bellach yn ennill mwy o gyflog na dynion yn CCAUC.

Mae'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau wedi lleihau ymhellach i -2.34%, gan ddangos bod menywod yn dal i ennill mwy ar y canolbwynt na dynion (fel mewn blynyddoedd blaenorol).

Mae'r newidiadau uchod ill dau'n gadarnhaol a chyda mentrau cydraddoldeb niferus wedi'u gwreiddio mewn prosesau recriwtio, y gobaith yw bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'r newidiadau a wnaed dros y blynyddoedd yn dwyn ffrwyth. Mae CCAUC yn recriwtio'n ddienw, lle mae manylion personol yn cael eu tynnu allan i leihau tuedd hyd y gellir. Cytunwyd y byddai mentrau gweithredu cadarnhaol a newidiadau a wnaed i brosesau recriwtio'n parhau trwy gydol 2023. Cafodd datganiad cydraddoldeb diwygiedig CCAUC ei gadw fel rhan o hyn sy'n ymdrin yn weithredol â'r angen am welliannau o ran amrywiaeth.

Fodd bynnag, ni ellir anghofio ffactor dylanwadol amrywiadau yng nghyfrif pennau bach CCAUC, ac fe all hyn fod o ganlyniad i'r newidiadau mewn staff dros y 12 mis diwethaf lle gall newidiadau bychain yng nghyfrannau'r staff gwrywaidd a benywaidd a'r staff amser llawn a rhan-amser ddylanwadu ar newid sylweddol ar draws y bylchau cyflog.

Y cyfrif pennau ar gyfer yr adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2024 yw 55 o gyflogeion ac mae'n dal i fod yn wir, ar raddfa o'r fath, bod data a ddadansoddir yn chwartelau'n dueddol o gael ei lurgunio oherwydd effaith cyflogau unigol.

Mae'r holl staff, heblaw am y Prif Weithredwr ac, yn fwy diweddar, y Prif Weithredwr Interim, ar raddfeydd cyflog safonedig, sydd â phwyntiau cynyddrannol cyfyngedig, ac nid oes unrhyw aelod o staff yn cael taliadau bonws. Mae'r ffigyrau ym mhob un o'r chwartelau'n dal i ddangos bod nifer uwch o fenywod yn cael eu cyflogi, ac mae'r gyfran uchaf yn dal i fod wedi'i dosbarthu ar draws y chwartel Uchaf a'r chwartel Isaf.

Bu gan CCAUC nifer o bolisïau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i gynorthwyo cyflogeion yn eu hamgylchiadau. Bu gennym nifer o staff rhan-amser, buom yn gweithredu oriau hyblyg, yn caniatáu gweithio gartref a phatrymau gweithio hyblyg, ac yn darparu 2 awr o amser llesiant bob wythnos, ynghyd â gweithredu polisïau absenoldeb arbennig cefnogol. Fe wnaeth y darpariaethau gynorthwyo ein staff i allu taro'r cydbwysedd a ddymunir rhwng bywyd a gwaith yn ogystal â datblygu eu gyrfaoedd.

Trafodwyd y ffigyrau o ran ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ystadegau eraill ar gydraddoldeb yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a'n Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn sefydlu unrhyw fecanweithiau gofynnol i barhau i greu gweithle amrywiol a chynhwysol.

Nid oes canllawiau eglur ynghylch sut y caiff cyflogeion anneuaidd neu draws eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau ein bod yn adrodd dan drefniadau arfer gorau. Ar hyn o bryd, yr opsiynau yw naill ai peidio â chynnwys cyflogeion anneuaidd neu draws yn y cyfrifiadau, neu eu cofnodi yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i Cyllid a Thollau EF a manylion hawl i weithio megis gwybodaeth basbort. I CCAUC, penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw gyflogeion nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ddynion na menywod, nes bydd canllawiau eglur wedi cael eu darparu neu y bydd y drefn ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n ystyried gwahanol rywiau.

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau** | +6.36% | +5.8% | +7.72% | +11.53% | -2.81% |
| **Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau** | -5.26% | -3.13% | -2.44% | -0.24% | -2.34% |

Cyfran y dynion a menywod ym mand cyflog pob chwartel:

| **Chwartel** | | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Isaf** | **(D)**<br>**(M)** | 41.67%<br>58.33% | 35.71%<br>64.29% | 21.43%<br>78.57% | 21.43%<br>78.57% | 35.71%<br>64.29% |
| **Canol isaf** | **(D)**<br>**(M)** | 41.67%<br>58.33% | 46.15%<br>53.85% | 42.86%<br>57.14% | 35.71%<br>64.29% | 35.71%<br>64.29% |
| **Canol uchaf** | **(D)**<br>**(M)** | 8.33%<br>91.67% | 15.38%<br>84.62% | 33.33%<br>66.67% | 40.00%<br>60.00% | 35.71%<br>64.29% |
| **Uchaf** | **(D)**<br>**(M)** | 33.33%<br>66.67% | 30.77%<br>69.23% | 21.43%<br>78.57% | 28.57%<br>71.43% | 38.46%<br>61.54% |

**Meincnod**

| | |
|---|---|
| Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau | 14.0% |
| Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau | 11.5% |

Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol – bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ar gyfer yr holl swyddi cyflogeion, y DU, 2022

DS: nid oes unrhyw ystadegau sy'n ymwneud â bonysau gan nad yw CCAUC yn talu bonysau

*Materion cymunedol a hawliau dynol*

Rydym wedi parhau, fel rhan o'n polisi absenoldeb arbennig, i roi'r opsiwn i aelodau o staff gymryd hyd at ddau ddiwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn i wirfoddoli i gefnogi elusennau lleol neu grwpiau cymunedol. Rydym wedi atgyfnerthu ein cysylltiadau â chymunedau lleol trwy ein haelodaeth o SEWEN (Rhwydwaith Cydraddoldeb De Ddwyrain Cymru).

Rydym yn aml yn cynnal digwyddiadau elusennol, megis gwerthu teisennau, neu ddigwyddiadau codi arian i gefnogi achosion da, er bod gweithio hybrid wedi golygu bod y gweithgareddau hyn wedi digwydd yn llai mynych.

Rydym yn ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol yn ein polisi ac arferion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae ein polisi ar Urddas yn y Gwaith wedi'i fwriadu i sicrhau bod holl hawliau cyflogeion yn cael eu parchu.

*Iechyd a diogelwch yn y gwaith*

Mae gan CCAUC Grŵp Rheoli Iechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd sy'n gweithredu i gynghori'r rheolwyr ynghylch materion iechyd a diogelwch ac amgylcheddol. Mae hefyd yn adrodd wrth y Pwyllgor Adnoddau Dynol ac wrth y Cyngor Gwaith. Mae'r Grŵp Rheoli Iechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu amgylchedd gweithio diogel gartref ac yn y swyddfa. Yn y cyfnod diwethaf, bu staff yn mynychu'r swyddfa ym Medwas yn fwy aml nag yn ystod y pandemig, ond roedd hyn yn dal ar lefel isel, ysbeidiol ac ni fu unrhyw newid i'n ffordd hybrid o weithio. Daeth y les ar swyddfa Bedwas i ben ar 31 Mawrth 2024 ac o ganol mis Ebrill, y swyddfa y byddai'r CADY yn ei meddiannu yn y dyfodol (o 1 Awst 2024) yng nghanol Caerdydd oedd y swyddfa newydd ar gyfer staff CCAUC. Parhaodd y Grŵp Rheoli Iechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd i gynnal asesiadau risg o'r trefniadau swyddfa newydd a chynnal cyswllt â swyddogion cynllunio'r CADY ynghylch trefniadau iechyd a diogelwch priodol hyd at 31 Gorffennaf 2024.

*Materion atal twyll ac atal llwgrwobrwyo*

Cafodd polisi a gweithdrefnau atal twyll ac atal llwgrwobrwyo CCAUC eu hadolygu a'u diweddaru ddiwethaf yn 2020-21, fel rhan o'n cylch adolygu lle'r ydym yn adolygu ein polisïau bob tair blynedd. Mae hyn yn rhan o'n harfer i ddiogelu CCAUC rhag llwgrwobrwyo a thwyll ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a Deddf Twyll 2006 ac i sicrhau bod ein busnes yn cael ei gynnal mewn modd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw achosion o dwyll na llwgrwobrwyo yn ystod y cyfnod 2023-24, ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol o'n cofrestr o'r risgiau o dwyll a llwgrwobrwyo, ni chanfu'r asesiadau fod unrhyw risgiau unigol ar lefel ddigon uchel i gael eu cynnwys mewn Cofrestr Risgiau Corfforaethol, a fyddai wedi golygu wedyn bod rhaid eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac i'n Cyngor.

*Cymorth a llesiant staff*

Mae gan gyflogeion fynediad at Raglen Cymorth i Gyflogeion, sy'n darparu mynediad at gyngor a chwnsela 24 awr y dydd, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn. Mae'r adnodd ar gael dros y ffôn, ar y wefan ac fel cymhwysiad symudol, ac yn hyrwyddo ffitrwydd, ffordd iach o fyw ac yn rhoi cymorth gydag iechyd meddwl.

Fe gyflwynom ni Awr Llesiant o ddechrau 2018-19, sy'n caniatáu i staff gymryd amser yn ystod y diwrnod gwaith i gyflawni gweithgaredd sydd o fudd i'w hiechyd a'u llesiant. Cafodd hyn ei estyn i mewn i 2020-21 ac fe'i cynyddwyd i ddwy awr o ddechrau'r flwyddyn o ddechrau'r pandemig mewn ymateb i roi trefniadau gweithio o bell ar waith ar gyfer yr holl staff ac fe barhaodd ar y lefel hon trwy gydol 2023-24.

*Rheoli cyfalaf dynol*

Fel sefydliad bach, mae cyfleoedd ar gyfer dyrchafiad yn aml yn gallu bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, pan ydynt yn codi, rydym yn sicrhau bod gan yr holl staff ymwybyddiaeth glir o'r swyddi gwag i hybu'r cyfle ar gyfer dyrchafiad.

I gefnogi datblygiad staff, rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i staff, ynghyd â system rheoli perfformiad strwythuredig. Mae gan staff fynediad at adnodd *Dysgu'r Gwasanaeth Sifil*, sy'n cynnig banc o hyfforddiant ar-lein. Mae'r agweddau hyn yn cefnogi cyflogadwyedd staff, boed yn fewnol, neu pe baent yn symud i sefydliad arall. Mae cyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi cael eu cynyddu i gefnogi staff yn ystod y broses o bontio i'r CADY.

Rydym hefyd yn cefnogi unigolion sy'n dymuno gwneud profiad gwaith o fewn CCAUC i gynorthwyo gyda'u cyflogadwyedd yn y dyfodol ac rydym wedi bod yn cynnal y rhain yn rhithwir yn ystod y cyfnod o weithio o bell, pryd bynnag yr oedd yn bosibl.

Bu Bwrdd Rheoli CCAUC yn cynllunio'r gweithlu er mwyn asesu'r anghenion o ran y gweithlu yn y dyfodol yn unol â hynny, gan wneud newidiadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod CCAUC yn meddu ar yr adnoddau i gyflawni ei amcanion, ond fe addaswyd y dull hwn gyda'r broses o bontio i'r CADY mewn golwg o fis Awst 2024.

**Gwariant ar ymgynghoriaeth**

Ni fu unrhyw wariant ar ymgynghoriaeth yn ystod y flwyddyn (2022-23: £dim).

**Gweithwyr y prynwyd eu gwasanaeth oddi ar y gyflogres**

Ni fu unrhyw daliadau i gyflogeion oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn.

**Pecynnau Ymadael**

Yn ogystal â'r taliad i'r Prif Weithredwr a nodwyd uchod, talwyd un pecyn ymadael arall yn 2023-24 (2022-23 – dim).

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer yr ymadawiadau |
|---|---|
| **£50,000 - £100,000** | 1 |
| **£150,000+** | 1 |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | 2 |
| **Cyfanswm cost** | £274,444 |

Fe wnaed y taliadau hyn yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, gyda chymeradwyaeth Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Rhoddir cyfrif yn llawn am gostau ymadael yn y cyfnod ymadael.



Simon Pirotte
Swyddog Cyfrifyddu CCAUC (o 1 Awst 2024)
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
19 Tachwedd 2024

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

**Barn am y datganiadau ariannol**
Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y cyfnod o 16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024 dan Baragraff 16(3) Atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.
Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:
- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar 31 Gorffennaf 2024 ac o'i wariant net ar gyfer y cyfnod o 16 mis a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

**Barn am reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y barnau**
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

**Gwybodaeth arall**
Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

**Barn am faterion eraill**
Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'i pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiad Llywodraethu.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**
Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**
Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, cofnodi dyddlyfrau anarferol a gwrthwneud gan reolwyr.
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau

hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:
- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac ymgynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith materion eraill, ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a ganfuwyd gennyf yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 20 Tachwedd 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd

# Datganiad gwariant net cynhwysfawr
**ar gyfer yr 16 mis a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024**

| | | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Notes | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant** | | | | | |
| *Cyllido addysg uwch*: | | | | | |
| Gwariant cylchol | 3 | 268,090 | | 205,742 | |
| Gwariant cyfalaf | 3 | 10,000 | | 11,000 | |
| Dibenion eraill | 5 | 15,537 | | 27,859 | |
| | | 293,627 | | 244,601 | |
| *Gwariant y Cyngor*: | | | | | |
| Costau staff | | 5,900 | | 3,586 | |
| Dibrisiant | 8 | 6 | | 35 | |
| Amorteiddiad | 9 | - | | 6 | |
| Gwariant arall | 6 | 1,406 | | 562 | |
| | | 7,312 | | 4,189 | |
| **Cyfanswm gwariant** | | | (300,939) | | (248,790) |
| **Incwm** | | | | | |
| Incwm o weithgareddau | 2 | | 16,560 | | 27,574 |
| **Costau gweithredu net** | | | (284,379) | | (221,216) |
| **Llog derbyniadwy** | | | 357 | | 117 |
| **Dyraniadau** | 7 | | (353) | | (115) |
| **Costau gweithredu net wedi'u trosglwyddo i ecwiti trethdalwyr** | | | (284,375) | | (221,214) |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig yn 2023-24 na 2022-23.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 62 yn rhan o'r cyfrifon hyn.


Dangosir manylion costau staff ar dudalen 34 fel rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol
**ar 31 Gorffennaf 2024**

| | Nodiadau | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 12 | 4 |
| Asedau anniriaethol | 9 | - | - |
| Grantiau ad-daladwy sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn | 10a | - | - |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol*** | | 12 | 4 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Grantiau ad-daladwy sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn | 10a | - | 1,167 |
| Symiau masnach a derbyniadwy eraill | 10b | 226 | 365 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 11 | 3,897 | 1,574 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 4,123 | 3,106 |
| **Cyfanswm asedau** | | 4,135 | 3,110 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach a thaladwy eraill | 12 | (483) | (1,512) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn un flwyddyn | 13 | (1) | (2) |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net*** | | 3,651 | 1,596 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl un flwyddyn | 13 | (14) | (16) |
| **Asedau namyn rhwymedigaethau** | | 3,637 | 1,580 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 3,637 | 1,580 |
| | | 3,637 | 1,580 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 62 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran CCAUC



Simon Pirotte
Prif Weithredwr, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
19 Tachwedd 2024

# Datganiad o lifoedd arian parod

**ar gyfer yr 16 mis a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024**

| | Nodiadau | 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net cyn llog | | (284,379) | (221,216) |
| Taliadau dibrisiant | | 6 | 35 |
| Taliadau amorteiddiad | | - | 6 |
| Gostyngiad mewn symiau masnach a derbyniadwy eraill sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | | 1,306 | 1,256 |
| Gostyngiad mewn grantiau ad-daladwy sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | | - | 1,167 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnach a derbyniadwy eraill | | (1,029) | 313 |
| Symudiad mewn darpariaethau | | (3) | (3) |
| **All-lifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | (284,099) | (218,442) |
| **Llifoedd arian parod o adenillion ar fuddsoddiadau ac ad-daliadau cyllid** | | | |
| Llog a gafwyd | | 357 | 117 |
| Llog a ildiwyd i Lywodraeth Cymru | | (353) | (115) |
| **Llifoedd arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau ac ad-daliadau cyllid** | | 4 | 2 |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | (14) | (6) |
| Prynu asedau sefydlog anniriaethol | 9 | | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | (14) | (6) |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 286,432 | 218,346 |
| **Llifoedd arian parod net o weithgareddau cyllido** | | 286,432 | 218,346 |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod** | | 2,323 | (100) |
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | 1,574 | 1,674 |
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 11 | 3,897 | 1,574 |
| **Gostyngiad net mewn arian parod** | | 2,323 | (100) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 62 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr
**ar gyfer yr 16 mis a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024**

| | **Cronfa Gyffredinol** £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | 1,580 |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2023-24** | |
| Costau gweithredu net | (284,375) |
| **Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig ar gyfer 2023-24** | (284,375) |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 286,432 |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2024** | 3,637 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 62 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon

1. **Datganiad o bolisïau cyfrifyddu**

(a) **Sail gyfrifyddu**

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan arfer pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2), atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y tybir ei fod yr un mwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol ni at ddiben rhoi darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Caiff y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym ni eu disgrifio isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd sydd wedi'u cyhoeddi ond heb ddod i rym eto a fyddai'n cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi cael eu cymhwyso yn y cyfnod adrodd hwn.

(b) **Grantiau ar gyfer prosiectau'r Undeb Ewropeaidd (UE)**

*Incwm:*

Buom yn cael incwm grant mewn perthynas â phrosiectau'r UE o ddwy ffynhonnell. Roedd incwm grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn yr ysgwyddwyd y gwariant ynddi. Roedd incwm yr UE i gefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gredydu i'r datganiad gwariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd y gwariant ei dalu. Fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE ar 31 Ionawr 2020, na fyddai unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer buddiolwyr prosiectau cyfredol a gyllidir gan yr UE. Mae Trysorlys EF hefyd wedi gwarantu cyllid ar gyfer yr holl brosiectau a gymeradwywyd dan raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop a bydd yn cefnogi gwariant rhaglen o fewn cwrs arferol gwariant tan 31 Rhagfyr 2023, pan oedd prosiectau cyfredol CCAUC wedi cael eu cwblhau.

*Gwariant:*

Fel yr ymgeisydd am brosiectau Ewropeaidd sy'n contractio gyda thrydydd partïon ar gyfer cyflawni, cododd ein rhwymedigaeth pan gafwyd hawliad dilys gan dderbynnydd y grant.

(c) **Cyllid**

Ceir cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido gweithgareddau refeniw cyffredinol. Caiff y swm yma o gymorth grant ei ystyried yn gyllido ac fe'i credydir i'r gronfa gyffredinol pan fo'n dod i law.

(d) **Grantiau taladwy**

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi ar sail blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth, ond caiff grantiau sy'n daladwy eu talu ar sail blwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf. Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r derbynnydd yn cyflawni'r gweithgaredd ynddo, sy'n creu hawl. Caiff y grantiau hynny sy'n gylchol eu natur, yn bennaf y cyllid cylchol a ddarperir i ddarparwyr addysg uwch, eu dwyn i gyfrif wrth dalu. Yn ein barn ni, mae'r driniaeth hon, ym mhob ffordd berthnasol, yn sicrhau cyfatebiaeth rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y darparwyr addysg uwch.

(e) **Grantiau ad-daladwy**

Mae grantiau ad-daladwy'n gyllid a ddarperir i ddarparwyr yn unigol i gefnogi costau cychwynnol prosiectau penodol, a gaiff eu hadfer fel rheol trwy addasiad i'w cyllid yn y dyfodol.

(f) **Costau pensiwn**
Mae cyflogeion blaenorol a phresennol wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Grant i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS). Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan ydym yn cael budd o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r ddau gynllun pensiwn. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar y drefniadau'r ddau gynllun.

Mae un o gyn-Gadeiryddion CCAUC wedi'i gynnwys o dan gynllun pensiwn sy'n cyfateb i'r PCSPS. Rydym yn gwneud taliadau i'r cyn-Gadeirydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Fodd bynnag, cydnabyddir cost ddisgwyliedig darparu'r pensiwn trwy gronni darpariaeth ar gyfer rhwymedigaeth yn y dyfodol, gan ddefnyddio tybiaethau a aseswyd yn actiwaraidd.

(g) **Eiddo, offer a chyfarpar**
Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu cario yn ôl gwerth teg. Defnyddir cost hanesyddol wedi dibrisio fel dirprwy ar gyfer gwerth teg ar gyfer pob dosbarth o'r asedau hyn gan bod ganddynt i gyd naill ai oes ddefnyddiol fer neu werth isel, neu'r ddau.

Caiff asedau technoleg gwybodaeth sy'n costio mwy na £5,000 ac unrhyw osodiadau, ffitiadau neu offer eraill sy'n costio mwy na £1,000 eu cyfalafu.

Darperir dibrisiant ar bob un o'r asedau hyn ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, gyda hynny'n adlewyrchiad realistig o ddefnydd yr ased, fel a ddangosir isod. Codir tâl am flwyddyn lawn o ddibrisiant yn y flwyddyn y'i prynwyd.

| | |
|---|---|
| Asedau technoleg gwybodaeth | - 3 blynedd |
| Offer trydanol | - 5 mlynedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | - 5 mlynedd |

Caiff unrhyw addasiadau i'r swyddfa sydd wedi'u cynnwys o fewn gosodiadau a ffitiadau eu hamorteiddio dros weddill cyfnod y brydles, o'r dyddiad prynu.

(h) **Asedau sefydlog anniriaethol**
Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio mwy na £5,000 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ddangosir isod. Codir tâl am flwyddyn lawn o amorteiddiad yn y flwyddyn y'i prynwyd.

| | |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd | - 3 blynedd |

(i) **Treth Ar Werth**
Mae gweithgareddau CCAUC y tu allan i gwmpas TAW. Codir TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu fe gaiff ei chynnwys yn y gost prynu wedi'i chyfalafu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

(j) **Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 Prydlesi**
Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 Prydlesi yn disodli Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 17 Prydlesi ac mae mewn grym yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022. Mae'n darparu un model cyfrifyddu lesddeiliad ac yn ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad adnabod asedau hawl defnydd a rhwymedigaethau ar gyfer prydlesi â chyfnod o lai na 12 mis oni bai bod y gwerth sylfaenol yn isel.

Dim ond un brydles sydd gan CCAUC ar hyn o bryd lle gallai'r safon hon fod yn berthnasol; fodd bynnag, mae tymor y brydles yn 12 mis o 1 Ebrill 2023 ac mae ganddi werth o £63,000. Is-brydles i brydles gan Lywodraeth Cymru yw hon ac fe geisiwyd cyngor i sicrhau bod

triniaeth gyfrifyddu CCAUC yn gyson ag un Llywodraeth Cymru, gan y bydd cyfrifon CCAUC yn cael eu cyfuno â rhai Llywodraeth Cymru. Cadarnhawyd fod y brydles hon yn newydd ac nad estyniad ar y brydles flaenorol mohoni; felly nid yw defnyddio synnwyr trannoeth wrth bennu tymor y brydles yn berthnasol; o ganlyniad, bydd y brydles yn cael ei thrin fel traul ac mae'r driniaeth gyfrifyddu hon yn gyson â'r un yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru.

(k) **Offerynnau ariannol**
Asedau ariannol: Nid yw symiau masnach derbyniadwy'n dwyn unrhyw log ac fe'u datgenir yn ôl eu gwerth enwol fel y'u lleiheir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig. Arian parod yw arian parod yn y banc ar delerau mynediad ar unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw symiau masnach taladwy'n dwyn llog ac fe'u datgenir yn ôl eu gwerth enwol.

(l) **Adrodd cylchrannol**
Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cyfarwyddo cyrff cyhoeddus i ateb gofynion IFRS 8 i adrodd ar wybodaeth sy'n ymwneud â chylchrannau gweithredu lle bodlonir meini prawf o dan IFRS 8. Rydym ni o'r farn bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at un genhadaeth gan weithredu o fewn yr un amgylchedd busnes ac nid oes unrhyw gylchrannau gweithredu gwahanadwy. O ganlyniad, nid ydym yn adrodd yn ôl cylchrannau gweithredu.

(m) **Costau a secondiadau staff**
Fel arfer mae cyflog staff ar secondiad yn dal i gael ei dalu gennym ni. Pan ad-delir costau ar gyfer staff ar secondiad, caiff hynny ei ddebydu yn erbyn costau staff yn y nodyn sydd wedi'i gynnwys o fewn yr Adroddiad Staff ar dudalen 36, sy'n rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd.

(n) **Busnes gweithredol**
O ganlyniad i basio Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 fe gaewyd ac fe ddiddymwyd CCAUC ar 31 Gorffennaf 2024. Fe drosglwyddodd gweithgareddau CCAUC, ynghyd â'i staff, asedau a rhwymedigaethau i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024. O ganlyniad, mae'r Swyddog Cyfrifyddu, gyda chefnogaeth yr uwch reolwyr, wedi dod i'r casgliad, gan bod y gwasanaethau a arferai gael eu darparu gan CCAUC yn parhau i gael eu darparu, yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol, ei bod hi'n briodol i CCAUC baratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol'.

## 2. Incwm o weithgareddau

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop | - | 785 |
| Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau gynt) – Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil | 15,579 | 19,595 |
| Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (a) | - | 4,709 |
| Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (b) | - | 2,450 |
| Prevent (c) | 47 | 35 |
| Llywodraeth Cymru (d) | 934 | - |
| | 16,560 | 27,574 |

(a) Cyllid o Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF) ar gyfer y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludydd Integreiddiol ym Mhrifysgol Abertawe oedd hwn. Dylai'r broses gyllido fod wedi cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2022; fodd bynnag, oherwydd oedi a oedd yn gysylltiedig â Covid-19, daeth y cyllid hwn i law yn llawn erbyn mis Rhagfyr 2022.

(b) Cyllid o Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF) a oedd wedi'i fwriadu i gefnogi gweithgareddau cyfalaf a fydd yn lleihau allyriadau carbon cyfleusterau ymchwil a gyllidir gan UKRPIF, gan wneud y prosesau ymchwil a gefnogir ganddynt yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, oedd hwn.

(c) Cyllid oedd hwn i roi cymorth i adrodd ar gydymffurfio â'r ddyletswydd Prevent gan y sector addysg uwch.

(d) Cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu costau staff ychwanegol a chostau cyfreithiol a TG a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi ar gyfer pontio i'r CADY oedd hwn. Cafwyd cyllid yn 2022-23 hefyd ond cafodd hwn ei gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol.

3. **Cyllido addysg uwch**

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 | | | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| | Cylchol £'000 | Cyfalaf £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Darparwyr Addysg Uwch** | | | | |
| Prifysgol Aberystwyth | 16,491 | 750 | 17,241 | 14,885 |
| Prifysgol Bangor | 22,123 | 750 | 21,873 | 16,695 |
| Prifysgol Caerdydd | 96,491 | 2,365 | 98,856 | 77,344 |
| Prifysgol Abertawe | 42,715 | 1,474 | 44,189 | 37,097 |
| Prifysgol Wrecsam | 6,467 | 750 | 7,216 | 6,160 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 11,259 | 856 | 11,945 | 9,489 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 11,631 | 952 | 12,583 | 9,521 |
| Prifysgol De Cymru | 23,620 | 1,427 | 24,716 | 20,510 |
| Y Brifysgol Agored | 32,587 | 676 | 33,263 | 19,460 |
| **Is-gyfanswm** | 261,882 | 10,000 | 271,882 | 211,161 |
| **Darparwyr Addysg Bellach** | | | | |
| Grŵp Llandrillo Menai | 1,305 | - | 1,305 | 647 |
| Grŵp NPTC Group | 185 | - | 185 | 174 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 73 | - | 73 | 79 |
| **Is-gyfanswm** | 1,563 | - | 1,563 | 900 |
| **Sefydliadau Eraill** | | | | |
| Advance HE | 105 | - | 105 | 102 |
| Anna Verhamme Consulting Ltd | 38 | - | 38 | - |
| Ymchwil Arad | 30 | - | 30 | - |
| Hardisty Jones | - | - | - | 40 |
| Asiantaeth Sicrhau Ansawdd | 315 | - | 315 | 32 |
| Ymchwil ac Arloesi'r DU | 59 | - | 59 | 235 |
| JANET (UK) Ltd | 2,689 | - | 2,689 | 2,009 |
| JISC Services Ltd | 20 | - | 20 | - |
| KPMG LLP | - | - | - | 15 |
| Cymdeithas Ddysgedig Cymru | 318 | - | 318 | 155 |
| Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr | 96 | - | 96 | 60 |
| Y Swyddfa Fyfyrwyr | 279 | - | 279 | 458 |
| Universities UK | 65 | - | 65 | 1,074 |
| Prifysgolion Cymru | 135 | | 135 | - |
| London Economics | - | - | - | 47 |
| Y Sgwrs | 63 | - | 63 | - |
| Llywodraeth Cymru (a) | 391 | - | 391 | 1,384 |
| Arall | - | - | - | 175 |
| **Is-gyfanswm** | 4,603 | - | 4,603 | 5,786 |
| **Cyfanswm** | 268,048 | 10,000 | 278,048 | 217,847 |
| **Namyn gwariant a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop** | 42 | - | 42 | (1,105) |
| **Cyfanswm** | 268,090 | 10,000 | 278,090 | 216,742 |

(a) Mae Llywodraeth Cymru oedd yn arwain ac yn rheoli rhaglen Sêr Cymru. Roedd hon yn cyllido Cymrodyr Ymchwil ychwanegol a nifer o Gadeiryddion Ymchwil mewn prifysgolion yng Nghymru er mwyn hybu capasiti ymchwil. Roedd CCAUC yn darparu ei gyfraniad cyllido ar gyfer y rhaglen i Lywodraeth Cymru, a oedd yn gwneud y taliadau i brifysgolion.

4. **Grantiau i ddarparwyr**

Wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn mae grantiau i ddarparwyr addysg uwch, sy'n amodol ar gadarnhad archwilwyr allanol y derbynyddion eu bod wedi cael eu defnyddio at y diben bwriadedig. Mae blwyddyn ariannol darparwyr addysg uwch yn dod i ben ar 31 Gorffennaf ac mae eu cyfrifon archwiliedig yn cael eu darparu ar ein cyfer ni erbyn 30 Tachwedd. Fe wnaeth adolygiad gennym ni o ddatganiadau ariannol darparwyr yn 2022/23 gadarnhau bod archwilwyr allanol pob darparwr wedi ystyried bod grantiau wedi cael eu defnyddio at eu diben bwriadedig ac nad oedd angen unrhyw addasiadau i grantiau. Fe arweiniodd y cyfrifiad diwedd blwyddyn o adfachiad ar gyfer cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau ar gyfer 2022/23 at adfachu £1.493m. Bydd unrhyw addasiad sy'n deillio o gyfrifon 2023/24 a niferoedd myfyrwyr yn cael ei wneud gennym ni mewn blwyddyn yn y dyfodol.

Rydym yn cadarnhau bod grantiau yr ydym wedi'u cael gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio at eu dibenion cymeradwy.

5. **Gwariant at ddibenion eraill**

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop * | (42) | 1,105 |
| Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil (a) | 15,579 | 19,595 |
| Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (b) | - | 4,709 |
| Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (c) | - | 2,450 |
| | 15,537 | 27,859 |

* roedd hyn i'w briodoli i fân orgroniad yn y flwyddyn flaenorol

(a) Rhoddir dadansoddiad o gyllid cyfalaf ymchwil fesul darparwr addysg uwch isod:

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 1,513 | 1,652 |
| Prifysgol Bangor | 1,920 | 1,804 |
| Prifysgol Caerdydd | 7,640 | 10,810 |
| Prifysgol De Cymru | 332 | 610 |
| Prifysgol Abertawe | 4,004 | 4,250 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | - | 109 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 170 | 331 |
| Prifysgol Wrecsam | - | 29 |
| | 15,579 | 19,595 |

(b) Cyllid o Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF) ar gyfer y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludydd Integreiddiol ym Mhrifysgol Abertawe oedd hwn. Dylai'r broses gyllido fod wedi cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2022; fodd bynnag, oherwydd oedi a oedd yn gysylltiedig â Covid-19, daeth y cyllid hwn i law yn llawn erbyn mis Rhagfyr 2022.

(c) Cyllid o Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF) a oedd wedi'i fwriadu i gefnogi gweithgareddau cyfalaf a fyddai'n lleihau allyriadau carbon cyfleusterau

ymchwil a gyllidir gan UKRPIF, gan wneud y prosesau ymchwil a gefnogir ganddynt yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, oedd hwn.

## 6. **Gwariannau eraill**

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau gweinyddu** | | |
| Costau adeiladau | 150 | 101 |
| Costau swyddfa | 83 | 55 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 41 | 60 |
| Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr | 34 | 28 |
| Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Cyngor | 9 | 5 |
| Costau cyfarfodydd aelodau'r Cyngor | 10 | 9 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 26 | 6 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â staff ar hyfforddiant, recriwtio a.y.b. | 73 | 52 |
| Costau technoleg gwybodaeth | 980 | 246 |
| | 1,406 | 562 |

Archwilydd Cyffredinol Cymru oedd ein harchwilydd yn ystod y cyfnod.

Cafwyd cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2022-23 i dalu costau staffio ychwanegol, cyfreithiol a TG a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi ar gyfer pontio i'r CADY. Mae hyn wedi'i gynnwys fel incwm arall ar gyfer 2023-24 ac yn y cyllid a gredydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn 2022-23.

## 7. **Dyraniadau**

| | Hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau i'w hildio i Lywodraeth Cymru: | | |
| Llog banc (heb gynnwys costau banc) | 353 | 115 |

8. **Eiddo, offer a chyfarpar**

| **Cost** | Offer technoleg gwybodaeth £'000 | Gosodiadau, ffitiadau ac offer £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | 620 | 59 | 679 |
| Ychwanegiadau | - | 14 | 14 |
| Ased a dderbyniwyd yn ôl | 8 | - | 8 |
| Gwarediadau | (284) | (52) | (336) |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 344 | 21 | 365 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 616 | 59 | 675 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 2 | 4 | 6 |
| Ased a dderbyniwyd yn ôl | 8 | - | 8 |
| Gwarediadau | (284) | (52) | (336) |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 342 | 11 | 353 |
| | | | |
| Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2024 | 2 | 10 | 12 |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2023 | 4 | - | 4 |
| | | | |
| **Cyllido asedau** | | | |
| Asedau a berchnogir | | | |
| Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2024 | 2 | 10 | 12 |

9. **Asedau sefydlog anniriaethol**

| **Cost** | Trwyddedau meddalwedd £'000 |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | 68 |
| Ychwanegiadau | - |
| Gwarediadau | - |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 68 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 68 |
| A godwyd am y flwyddyn | - |
| A ryddhawyd wrth waredu | - |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 68 |
| | |
| Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2024 | - |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2023 | - |

## 10a. **Grantiau ad-daladwy**

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau ad-daladwy** | | |
| Balansau ar 1 Ebrill | 1,167 | 2,125 |
| A ad-dalwyd yn ystod y cyfnod | (1,167) | (958) |
| Balansau ar 31 Gorffennaf/31 Mawrth | - | 1,167 |
| | | |
| **Balansau ar 31 Gorffennaf/31 Mawrth** | | |
| O fewn un flwyddyn | - | 1,167 |
| Ar ôl un flwyddyn | - | - |
| Balansau ar 31 Mawrth | - | 1,167 |

Arian a ddarperid i ddarparwyr ar sail unigol i gefnogi prosiectau cymeradwy o'r rhan briodol o gyllideb y rhaglen oedd grantiau ad-daladwy.

Roedd dechrau'r broses ad-dalu a hyd y cyfnod pan oedd y grantiau'n ad-daladwy'n amrywio yn ôl yr amodau grant y cytunwyd arnynt gyda'r darparwr.

Nid oedd yr un o'r grantiau uchod yn dwyn llog.

Ar 31 Gorffennaf 2024, nid oedd yr un darparwr (2023 – un) â grantiau ad-daladwy a oedd yn dal heb eu had-dalu.

## 10b. **Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill**

| | Ar 31 Gorffennaf 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 224 | 363 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 2 | 2 |
| | 226 | 365 |
| | | |
| **Balansau mewnlywodraethol** | | |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | 25 | 271 |
| Balansau gyda chyrff llywodraethol eraill | - | - |
| Balansau gyda chyrff anllywodraethol | 201 | 94 |
| | 226 | 365 |

## 11. Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Arian parod a ddelir dan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth** | | |
| Balans ar 1 Ebrill | 462 | 712 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 1,498 | (251) |
| Balans ar 31 Gorffennaf/31 Mawrth | 1,960 | 461 |
| **Arian parod a ddelir dan fanciau masnachol ac arian parod mewn llaw** | | |
| Balans ar 1 Ebrill | 1,113 | 962 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 824 | 151 |
| Balans ar 31 Gorffennaf/31 Mawrth | 1,937 | 1,113 |
| Cyfanswm arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 3,897 | 1,574 |

Gwasanaeth bancio ar draws y Llywodraeth gyfan a ddarperir gan y Royal Bank of Scotland (RBS) yw Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS). Nid ydym yn ennill unrhyw log ar unrhyw falans a ddelir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Rydym wedi cael ein hawdurdodi gan Drysorlys EF i barhau i ddefnyddio cyfleusterau bancio masnachol i wneud taliadau, sy'n dwyn llog.

## 12. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | | |
| Croniadau | 483 | 1,512 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | - | - |
| Mân gredydwyr | - | - |
| | | 1,512 |

| | | |
|---|---|---|
| **Balansau mewnlywodraethol** | | |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 98 | 944 |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | - | - |
| Balansau gyda chyrff llywodraethol eraill | 98 | 944 |
| Balansau gyda chyrff anllywodraethol | 385 | 568 |
| | 483 | 1,512 |

## 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth pensiwn cydweddol (gweler y nodyn ar Gostau Staff ar dudalennau 36 a 38) | 15 | 18 |
| **Dadansoddiad o amseriad rhwymedigaeth** | | |
| Yn dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn (2024-25) | 1 | 2 |
| Yn dod yn ddyledus rhwng 2025-26 a 2028-29 | 8 | 8 |
| Yn dod yn ddyledus rhwng 2029-30 a 2038-39 | 6 | 8 |
| | 15 | 18 |

## 14. Ymrwymiadau dan brydlesi

**Prydlesi gweithredu**

Rhoddir cyfanswm y taliadau prydles isafswm yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau dilynol.

| | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Mae rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredu'n cynnwys:** | | |
| Adeiladau | | |
| Yn ddim hwyrach nag un flwyddyn | - | 63 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ac yn ddim hwyrach na phum mlynedd | | - |
| | - | 63 |

Mae gwariant yn ystod y flwyddyn ar gostau prydlesu o £63k wedi'i gynnwys yn nodyn 6. Dechreuodd les derfynol y swyddfa ar 1 Ebrill 2023 a daeth i ben ym mis Mawrth 2024. Ni chodwyd unrhyw daliadau pellach ar ôl y dyddiad hwn.

## 15. Ymrwymiadau cyfalaf

| | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio ar 31 Gorffennaf 2024 ac ar 31 Mawrth 2024, heb eu cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn | | |
| *Eiddo, offer a chyfarpar* | | |
| Wedi'u contractio | - | - |

16. **Ymrwymiadau ariannol a rhwymedigaethau digwyddiadol eraill**

| | Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau refeniw (a) | - | 57,873 |
| Prosiectau Ewropeaidd (b) | - | - |
| | - | 57,873 |

(a) Cafodd y swm yma ei gyllido â chymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

(b) Daeth y prosiectau Ewropeaidd i ben ym mis Rhagfyr 2022 gyda'r hawliadau terfynol yn cael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2023. Mae'r holl hawliadau am incwm a thaliadau cronnus wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifon hyn, nid oes ymrwymiadau ariannol pellach heb eu talu.

Ar 31 Gorffennaf 2024, nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol (2023 – dim).

17. **Partïon cysylltiedig**

Corff a Noddid gan Lywodraeth Cymru oedd CCAUC. Ystyrid bod Llywodraeth Cymru'n barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cawsom amryw drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cymru, yr ystyrid mai hi yw'r rhiant-Adran.

Roedd yr aelodau o'r Cyngor a'r uwch aelodau o staff a ganlyn wedi ymrwymo i berthnasoedd â sefydliadau yr ystyrid eu bod yn bartïon cysylltiedig, y caiff eu manylion eu dangos yn y tabl isod:

| Enw | Perthynas â pharti cysylltiedig |
|---|---|
| Rob Humphreys CBE, FLSW (Cadeirydd y Cyngor) | ♦ Cymrawd etholedig, Cymdeithas Ddysgedig Cymru<br>♦ Mewnbwn a chymorth parhaus i brosiect Cymru Fyd-eang a reolir gan Prifysgolion Cymru<br>♦ Cadeirydd grŵp sector ar gyfer dysgu oedolion a chymunedol, ac aelod o'r prif Grŵp Cynghori, Taith – Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu |
| Yr Athro Mark Smith CBE | ♦ Aelod o'r Cyngor, EPSRC<br>♦ Aelod, Polisi Ymchwil, Universities UK |
| Yr Athro Aaqil Ahmed | ♦ Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel, Llywodraeth Cymru, penodiadau cyhoeddus |
| Yr Athro Helen Marshall | ♦ Adolygwr Academaidd, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd |
| James Davies | ♦ Aelod, Y Bwrdd Cynghori Gweinidogol ar yr Economi, Llywodraeth Cymru |

Mae unrhyw arian a dalwyd i'r darparwyr a'r sefydliadau a nodir uchod wedi'u nodi yn nodyn 3, fel arall roedd yr arian a dalwyd yn ystod y flwyddyn yn ddim. Nid yw'r un o'r unigolion uchod wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda ni.

## 18. Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 32 a 39 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gyflwyno a datgelu gwybodaeth am effaith bosibl offerynnau ariannol ar ei sefyllfa ariannol a'i berfformiad, ac ar ba mor agored ydyw i risg.

*Risgiau o ran hylifedd* – Yn y cyfnod o 16 mis hyd at 31 Gorffennaf 2024, deilliodd £286.4m neu 94.5% o'n hincwm o Lywodraeth Cymru (2022-23 - £218.3m neu 88.8%). Deilliodd gweddill yr incwm, £16.6m neu 5.5%, o incwm o weithgareddau (2022-23: £27.6m neu 11.2%).

Nid ydym yn ystyried bod ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac rydym wedi ein hargyhoeddi bod incwm yn y dyfodol yn ddigon i gyflawni ein hymrwymiadau.

*Risgiau o ran cyfraddau llog* – Caiff rhai o'r balansau arian parod a dynnir i lawr o Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymiadau cyllido a chostau gweithredu eu dal mewn cyfrif banc â chyfradd llog amrywiol y ceir mynediad ar unwaith ato, yr oedd ei gyfradd llog ar gyfartaledd yn 4.5% yn y cyfnod. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £3,897k. Nid yw CCAUC yn ystyried bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

*Risg o ran arian tramor* – Nid yw ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

*Risg o ran llifoedd arian parod* – Nid ydym yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llifoedd arian parod.

## 19. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

*Diddymu CCAUC*
Peidiodd gweithrediadau CCAUC ac fe'i diddymwyd ar 31 Gorffennaf 2024. Cafodd y swyddogaethau a oedd yn cael eu cyflawni gan CCAUC eu trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o 1 Awst 2024, ynghyd â'i staff, ei asedau a'i rwymedigaethau.